



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Y system cyfiawnder troseddol ac addysg, hyfforddiant a chyflogaeth

Llwybrau addysg, hyfforddiant a
chyflogaeth ar gyfer pobl ifanc sydd yn y
system cyfiawnder troseddol

Awst 2016

Y system cyfiawnder troseddol ac addysg, hyfforddiant a chyflogaeth

Cynulleidfa

Sefydliadau sy'n cynnig cymorth i bobl ifanc 16–18 oed sy'n ymwneud â'r system cyfiawnder troseddol ac sy'n cael mynediad at gyfleoedd addysg, hyfforddiant a chyflogaeth a chymryd rhan ynddynt.

Trosolwg

Mae'r adnodd hwn yn ceisio helpu gweithwyr proffesiynol yn eu gwaith o wella'r deilliannau ar gyfer pobl ifanc sy'n ymwneud â'r system cyfiawnder troseddol drwy ddarparu crynodebau o arferion da mewn meysydd gwaith allweddol. Comisiynwyd yr adnodd gan Lywodraeth Cymru ac fe'i datblygwyd gyda chymorth amrywiaeth o bartneriaid gan gynnwys Timau Troseddau Ieuencid, darparwyr dysgu sy'n seiliedig ar waith, llety diogel, Gyrfa Cymru a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid.

Camau i'w cymryd

Dim – er gwybodaeth yn unig.

Rhagor o wybodaeth

Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:

Y Gangen Ymgysylltu ag Ieuencid

Yr Is-adran Cymorth i Ddysgwyr

Y Gyfarwyddiaeth Addysg

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

e-bost: youthengagementandprogression@cymru.gsi.gov.uk

Copiâu ychwanegol

Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn

<http://gov.wales/topics/people-and-communities/communities/safety/youthjustice/youthjustice/?skip=1&lang=cy>

Dogfennau cysylltiedig

Astudiaethau achos o bobl ifanc mewn addysg, hyfforddiant a chyflogaeth (2016)

Cynnwys

Rhagair	3
1. Negeseuon allweddol a chynulleidfaoedd ar gyfer yr adnodd	4
2. Yr adnodd hwn	10
2.1 Cyflwyniad	10
2.2 Datblygu'r adnodd	10
2.3 Sail resymegol dros yr adnodd	12
2.4 Graddio'r enghreifftiau o arferion	13
3. Yr her o ddarparu addysg, hyfforddiant a chyflogaeth i bobl ifanc yn y system cyfiawnder troseddol	16
3.1 Trosolwg	16
3.2 Crynodeb o'r heriau ac ymatebion a awgrymir	16
4. Llwybrau pobl ifanc i a thrwy addysg, hyfforddiant a chyflogaeth	23
4.1 Negeseuon allweddol	23
4.2 Tystiolaeth o lenyddiaeth gyfredol	24
4.3 Canfyddiadau rhanddeiliaid o arferion da	26
4.4 Astudiaethau achos gydag enghreifftiau o arferion da	28
5. Ailsefydlu	42
5.1 Negeseuon allweddol	42
5.2 Tystiolaeth o'r llenyddiaeth sy'n bodoli eisoes	42
5.3 Canfyddiadau rhanddeiliaid o arferion da	44
5.4 Astudiaeth achos gydag enghreifftiau o arferion da	46
6. Datgelu ymddygiad troseddol	50
6.1 Negeseuon allweddol	50
6.2 Tystiolaeth o'r llenyddiaeth sy'n bodoli eisoes	50
6.3 Canfyddiadau rhanddeiliaid o arferion da	51
6.4 Astudiaeth achos gydag enghreifftiau o arferion da	54
7. Gweithio mewn partneriaeth a rhannu gwybodaeth	58
7.1 Negeseuon allweddol	58
7.2 Tystiolaeth o'r llenyddiaeth sy'n bodoli eisoes	59
7.3 Canfyddiadau rhanddeiliaid o arferion da	60
7.4 Astudiaethau achos gydag enghreifftiau o arferion da	64
Atodiad 1: Protocol rhwng Grŵp Coleg Castell-nedd Port Talbot, timau Plant sy'n Derbyn Gofal Castell-nedd Port Talbot a thîm 16+ Powys [nid yw yn y ddogfen]	
Atodiad 2: Protocol ar gyfer rhannu gwybodaeth rhwng Tîm Troseddau Ieuencid Conwy a Sir Ddinbych a Grŵp Llandrillo Menai [nid yw yn y ddogfen]	
Atodiad 3: Trefniadau gweithio Tîm Troseddau Ieuencid Conwy a Sir Ddinbych ar gyfer rheoli pobl ifanc â throseddau rhywiol mewn lleoliadau addysg [nid yw yn y ddogfen]	
Atodiad 4: Dogfen cynorthwyo rheoli risg ar gyfer lleoliadau	

addysg, hyfforddiant a chyflogaeth ar gyfer pobl ifanc sydd wedi cwblhau eu Gorchymyn statudol gyda'r Tîm Troseddau leuenctid [nid yw yn y ddogfen]

Atodiad 5: Ffurflen bwrpasol dan arweiniad dysgwyr i'w chadw gyda'r person ifanc gydol ei daith drwy hyfforddeiaeth [nid yw yn y ddogfen]

Atodiad 6: Llawlyfr Ymarferwyr Gwasanaeth NEET Aml-asiantaeth Ceredigion [nid yw yn y ddogfen]

Atodiad 7: Datganiad dienw o drefniant rhwng coleg AB a Thîm Troseddau leuenctid [nid yw yn y ddogfen]

Atodiad 8: Memorandwm cyd-ddealltwriaeth rhwng Gyrfa Cymru a Rheolwyr Timau Troseddau leuenctid Cymru 2013–15 [nid yw yn y ddogfen]

Rhagair

Mae ymgysylltu a datblygu mewn addysg, hyfforddiant a chyflogaeth yn ffactor amddiffynnol mawr o ran atal troseddu ac aildroseddu. Mae gallu cael gafael ar gyfleoedd addysg, hyfforddiant a chyflogaeth priodol o safon yn hanfodol er mwyn helpu pobl ifanc sy'n rhan o'r system cyfiawnder troseddol wrth iddynt adael addysg orfodol yn 16 oed.

Mae gwella ymgysylltu a datblygu ieuenctid yn flaenoriaeth allweddol i Lywodraeth Cymru, fel y gwelir yn y Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid a'r ymrwymadau a nodir yn y Strategaeth ar y cyd rhwng Llywodraeth Cymru a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, *Plant a Phobl Ifanc yn Gyntaf*.

Mae'r adnodd hwn yn dangos sut y gall dull aml-asiantaeth a chyfannol o gydgyssylltu darpariaeth addysg, hyfforddiant a chyflogaeth helpu i sefydlu llwybrau diogel, posibl eu cyflawni i gyflogi pobl ifanc sy'n rhan o'r system cyfiawnder troseddol.

Bydd ymgorffori a chryfhau dulliau effeithiol a systematig o nodi pobl ifanc sydd angen cymorth, a sicrhau eu bod yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt i gymryd rhan mewn addysg, hyfforddiant a chyflogaeth, yn cynyddu eu potensial ac yn cau'r bwlch rhwng cyrhaeddiad addysgol y bobl ifanc sy'n rhan o'r system cyfiawnder troseddol a'r rhaid nad ydynt yn rhan o'r system.

Mae'r adnodd yn defnyddio'r gwaith da sylweddol a wneir eisoes ac adborth gan weithwyr proffesiynol o 'beth sy'n gweithio' mewn amryw o leoliadau. Rydym yn cydnabod bod gwasanaethau rheng flaen yn gweithredu mewn cyfnod ariannol heriol. Gobeithiwn y bydd yr adnodd yn helpu i hyrwyddo dull integredig ehangach gan bob sefydliad sy'n darparu cyfleoedd addysg, hyfforddiant a chyflogaeth i bobl ifanc ôl-16 oed, ac y bydd yn cynorthwyo gweithwyr proffesiynol i oresgyn heriau a rhwystrau cyffredin, ac i ganolbwyntio ar anghenion penodol pobl ifanc penodol.

Rydym am ddiolch i bawb a gymerodd ran ac a rannodd eu sylwadau yn ystod y gwaith o ddatblygu'r adnodd hwn.

Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid
Llywodraeth Cymru
Chwefror 2016

1. Negeseuon allweddol a chynulleidfaedd ar gyfer yr adnodd

Mae Ffigur 1 yn rhoi trosolwg o negeseuon allweddol pob pennod yn yr adnodd hwn ac yn dangos pwy allai elwa ar ddarllen a defnyddio'r hyn a ddysgir yn yr astudiaethau achos. Bydd hyn yn eich galluogi i bori drwy'r penodau sydd o fwyaf o ddiddordeb i chi. Gallwch weld testun llawn pob pennod a'r astudiaethau achos unigol drwy glicio ar y dolenni yn y tabl.

Ffigur 1: Crynodeb o'r negeseuon allweddol a'r cynulleidfaedd

Rhif a theitl y Bennod	Negeseuon allweddol	Astudiaethau achos	Cynulleidfa darged yr astudiaeth achos
Pennod 3 Heriau o ran darparu addysg, hyfforddiant a chyflogaeth i bobl ifanc yn y system cyfiawnder troseddol	Mae yna nifer o heriau posibl o ran cael pobl ifanc sy'n rhan o'r system cyfiawnder troseddol i gymryd rhan mewn addysg, hyfforddiant a chyflogaeth, ac mae'r rhain yn rhannu'n bedwar categori bras: <ul style="list-style-type: none"> Personol. Amgylcheddol. Gweithredol. Strategol. Mae adolygiad o lenyddiaeth a chyfweliadau gyda gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio yn y maes yn rhoi awgrymiadau ar sut i oresgyn yr heriau hyn, sydd wedi'u crynhoi yn y bennod.	Dim astudiaeth achos.	Dim astudiaeth achos.
Pennod 4 Llwybrau pobl ifanc i a thrwy addysg, hyfforddiant a	Mae yna sawl nodwedd o ddarpariaeth addysg, hyfforddiant a chyflogaeth sy'n gallu gwella ymgysylltiad pobl ifanc sy'n rhan o'r system cyfiawnder troseddol. Mae'r rhain yn cynnwys:	Teilwra darpariaeth a defnyddio menter gymdeithasol i hyrwyddo ymgysylltu a datblygu yn y gymuned: Canolfan Pobl Ifanc Cwmbrân	Darparwyr addysg, hyfforddiant a chyflogaeth yn y gymuned.

Rhif a theitl y Bennod	Negeseuon allweddol	Astudiaethau achos	Cynulleidfa darged yr astudiaeth achos
chyflogaeth	<p>Nodi pobl ifanc sydd mewn perygl o ymddieithrio o addysg, hyfforddiant a chyflogaeth yn gynnar.</p> <p>Darpariaeth gyfannol i ddiwallu holl ystod anghenion person ifanc.</p> <p>Cymorth cyson wedi'i bersonoleiddio gydol eu holl daith addysg, hyfforddiant a chyflogaeth, yn seiliedig ar feithrin perthynas o ymddiriedaeth rhwng pobl ifanc a staff/gwirfoddolwyr.</p> <p>Dysgu seiliedig ar weithgareddau a galwedigaethol sy'n addas i ddysgwyr cinesthetig¹.</p> <p>Darpariaeth un-i-un a grwpiau bychain. Rheoli disgwyliadau pobl ifanc o ddarpariaeth addysg, hyfforddiant a chyflogaeth a'r canlyniadau posibl y gellir eu helpu i'w cyflawni.</p>	<p>a Randomz</p> <p>Teilwra darpariaeth addysg, hyfforddiant a chyflogaeth i hyrwyddo ymgysylltu a datblygu mewn lleoliad diogel: Cartref plant diogel Hillside</p> <p>Datblygu cynllun profiad gwaith lleol i bobl ifanc 16-18 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET): Ieuencid Sir Benfro</p> <p>Secondio cynghorydd Gyrfu Cymru i Dîm Troseddau Ieuencid i gynyddu dwysedd ac ansawdd darpariaeth a chymorth addysg, hyfforddiant a chyflogaeth mewnol: Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid Ceredigion</p>	<p>Lleoliadau diogel.</p> <p>Darparwyr gwasanaethau ieuencid ac addysg, hyfforddiant a chyflogaeth yn y gymuned.</p> <p>Timau troseddau ieuencid.</p>
Pennod 5 Ailsefydlu	Mae ailsefydlu sy'n diwallu'r ystod lawn o anghenion sydd gan berson ifanc yn elfen allweddol o ymgysylltiad parhaus y person	Cynllunio cynnar ar gyfer ailsefydlu a chymorth parhaus ar ôl rhyddhau o'r ddalfa i	Lleoliadau diogel a darparwyr addysg, hyfforddiant a

¹ Mae'n well gan ddysgwyr cinesthetig ddysgu drwy wneud gweithgareddau yn hytrach na gwrando ar ddarlith, gwyllo arddangosiadau neu ddarllen deunyddiau.

Rhif a theitl y Bennod	Negeseuon allweddol	Astudiaethau achos	Cynulleidfa darged yr astudiaeth achos
	<p>ifanc ag addysg, hyfforddiant a chyflogaeth, ac mewn atal aildroeddu. Mae'r prif argymhellion yn y maes hwn yn cynnwys:</p> <p>Cynllunio cynnar i osgoi bylchau mewn darpariaeth gwasanaeth. Mae hyn yn cynnwys mewngymorth yn y ddalfa gan ddarparwyr yn y gymuned.</p> <p>Ceisio sicrhau dilyniant mewn darpariaeth addysg, hyfforddiant mewn lleoliadau diogel a'r gymuned i sicrhau bod pobl ifanc yn gallu cael gafael ar ddarpariaeth yn y ddau leoliad i gyfrannu at eu cynlluniau a'u nodau dysgu cyffredinol.</p> <p>Cymorth cofleidiol dwys ar ôl cael eu rhyddhau o'r ddalfa i fynd i'r afael â materion ehangach a allai effeithio ar ymgysylltu ag addysg, hyfforddiant a chyflogaeth ac i gefnogi'r broses o bontio i ddarpariaeth addysg, hyfforddiant a chyflogaeth yn y gymuned.</p> <p>Protocolau clir ar gyfer rhannu gwybodaeth rhwng lleoliadau carchar a chymunedol.</p> <p>Panelli aml-asiantaeth a chyfarfodydd i gynllunio darpariaeth i bobl ifanc</p>	<p>ddarpariaeth addysg, hyfforddiant a chyflogaeth yn y gymuned: Cartref plant diogel Hillside</p>	<p>chyflogaeth yn y gymuned</p>

Rhif a theitl y Bennod	Negeseuon allweddol	Astudiaethau achos	Cynulleidfa darged yr astudiaeth achos
	unigol a hwyluso'r broses drosglwyddo.		
<p>Pennod 6 Datgelu ymddygiad troseddol</p>	<p>Gall gweithdrefnau cyson, cadarn a sensitif ar gyfer datgelu ymddygiad troseddol gael effaith gadarnhaol ar ymgysylltiad pobl ifanc ag addysg, hyfforddiant a chyflogaeth. Gallant arwain at:</p> <ul style="list-style-type: none"> Rannu gwybodaeth gywir a phriodol. Datgelu sy'n cyfrannu at asesu a rheoli risg yn briodol. Datgelu sy'n arwain at gynnig mwy o gymorth/cymorth mwy cyfannol i bobl ifanc. <p>Mae'r prif argymhellion yn y maes hwn yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> Annog pobl ifanc i ddatgelu'r wybodaeth eu hunain pan fo angen. Mae hyn yn cynnwys cynghori pobl ifanc ar ofynion cyfreithiol datgelu a sut i gyflwyno eu datgeliad yn y goleuni mwyaf cadarnhaol i leihau ymatebion negyddol gan y rhai sy'n darparu cyfleoedd addysg, hyfforddiant a chyflogaeth. Trefniadau rhannu gwybodaeth cyson, cadarn ac effeithiol rhwng partneriaid. Dylai'r rhain fod yn seiliedig ar gyd-ymddiriedaeth a 	<p>Datgelu priodol a ddefnyddir i reoli risg a sbarduno cymorth colfeidiol ychwanegol: Tîm Troseddau Ieuencid Conwy a Sir Ddinbych a Grŵp Llandrillo Menai</p>	<p>Timau troseddau ieuencid a darparwyr addysg, hyfforddiant a chyflogaeth yn y gymuned.</p>

Rhif a theitl y Bennod	Negeseuon allweddol	Astudiaethau achos	Cynulleidfa darged yr astudiaeth achos
	byddant yn gweithio orau pan fydd gan y partneriaid hanes o gydweithio i gefnogi pobl ifanc sydd â chefnidir cyfiawnder troseddol i sicrhau canlyniadau addysg, hyfforddiant a chyflogaeth llwyddiannus.		
<p>Pennod 7 Gwaith partneriaeth a rhannu gwybodaeth</p>	<p>Gall gwaith partneriaeth a rhannu gwybodaeth effeithiol gael effaith gadarnhaol ar ymgysylltiad pobl ifanc ag addysg, hyfforddiant a chyflogaeth, mewn perthynas â'r canlynol yn arbennig:</p> <p>Pontio'n ddidrafferth rhwng gwasanaethau.</p> <p>Teilwra gwasanaethau'n briodol i anghenion person ifanc.</p> <p>Mae'r prif argymhellion yn y maes hwn yn cynnwys:</p> <p>Cyfathrebu rheolaidd, cyson a thryloyw. Protocolau rhannu gwybodaeth cadarn. Paneli aml-asiantaeth gyda rhanddeiliaid allweddol.</p> <p>Secondiadau neu gyd-leoli gweithwyr o sefydliadau partner allweddol sy'n rhan o'r gwaith o gael pobl ifanc sy'n rhan o'r system cyfiawnder troseddol i ymgysylltu ag addysg, hyfforddiant a chyflogaeth.</p>	<p>Swyddog Addysg y Gwasanaeth Allgymorth Ieuenctid yn darparu darpariaeth a chymorth mewn canolfan addysg, hyfforddiant a chyflogaeth: Partneriaeth rhwng Gwasanaethau Troseddau Ieuenctid Itec Llwynypia a Chwm Taf</p> <p>Darparwyr addysg, hyfforddiant a chyflogaeth yn cydweithio i gefnogi ymgysylltu cynnar a phontio i ddarpariaeth fwy strwythuredig: Partneriaeth rhwng Itec Llwynypia a Llamau</p> <p>Uno gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid gyda gwasanaethau ieuenctid i gynyddu integreiddiad gwasanaethau o dan agenda NEET a chyn</p>	<p>Timau troseddau ieuenctid a darparwyr addysg, hyfforddiant a chyflogaeth yn y gymuned.</p> <p>Darparwyr addysg, hyfforddiant a chyflogaeth yn y gymuned.</p> <p>Awdurdodau lleol, gwasanaethau ieuenctid a thimau troseddau ieuenctid.</p>

Rhif a theitl y Bennod	Negeseuon allweddol	Astudiaethau achos	Cynulleidfa darged yr astudiaeth achos
	Meithrin perthynas â phartneriaid newydd sy'n gallu dod ag adnoddau ac arbenigedd i greu darpariaeth well.	NEET: Ieuencid Sir Benfro Tîm allgymorth ieuencid yn cefnogi ymyrryd ac ymgysylltu cynnar mewn lleoliadau addysg, hyfforddiant a chyflogaeth: Ieuencid Sir Benfro Defnyddio grŵp ymarferwyr NEET aml-asiantaeth i nodi a chefnogi pobl ifanc yn well: Ceredigion	<p>Gwasanaethau ieuencid, gwasanaethau allgymorth a thimau troseddau ieuencid.</p> <p>Cydgysylltwyr ymgysylltu a datblygu awdurdodau lleol a'r holl weithwyr proffesiynol sy'n rhan o'r gwaith o hwyluso llwybrau addysg, hyfforddiant a chyflogaeth i bobl ifanc sy'n rhan o'r system cyfiawnder troseddol.</p>

2. Yr adnodd hwn

2.1 Cyflwyniad

Mae'r adnodd hwn ar gyfer gweithwyr proffesiynol sy'n cefnogi pobl ifanc 16-18 oed sy'n rhan o'r system cyfiawnder troseddol i gymryd rhan mewn addysg, hyfforddiant a chyflogaeth. Mae'n helpu gweithwyr proffesiynol yn eu gwaith i wella canlyniadau i bobl ifanc.

Comisiynwyd yr adnodd gan Lywodraeth Cymru, gyda chymorth Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid Cymru. Fe'i hysgrifennwyd gan Cordis Bright, sefydliad ymchwil ac ymgynghori annibynnol.

Mae'r adnodd yn cynnig crynodebau o arferion da mewn meysydd gwaith allweddol sy'n helpu i gefnogi pobl ifanc 16-18 oed sy'n rhan o'r system cyfiawnder troseddol i ymgysylltu ag addysg, hyfforddiant a chyflogaeth. Mae'n dwyn ynghyd:

Dystiolaeth o arferion effeithiol yn seiliedig ar adolygiad o lenyddiaeth.


Enghreifftiau o arferion da ac astudiaethau achos yn seiliedig ar brofiad gweithwyr proffesiynol o "beth sy'n gweithio" ledled Cymru.

Enghreifftiau o brotocolau a dogfennau eraill mae gweithwyr proffesiynol yn eu defnyddio i gefnogi arferion effeithiol yn eu sefydliad neu ardal, sydd wedi'u cynnwys yn eu hiaith wreiddiol.

2.2 Datblygu'r adnodd

Mae Ffigur 2 yn dangos y dull a ddefnyddiwyd i ddatblygu'r adnodd arferion da hwn.

Ffigur 2: Dull datblygu'r adnodd



Cynhaliwyd yr ymchwil mewn dau gam. Roedd cam un yn cynnwys:

Adolygiad o bolisi a chanllawiau perthnasol Llywodraeth Cymru a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, gyda ffocws arbennig ar Plant a Phobl Ifanc yn Gyntaf a'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid².

Asesiad tystiolaeth cyflym o arferion effeithiol mewn perthynas â chefnogi pobl ifanc yn y system cyfiawnder troseddol i ymgysylltu ag addysg, hyfforddiant a chyflogaeth, cynnal eu hymgysylltiad a datblygu. Graddiwyd cryfder y dystiolaeth gan Cordis Bright drwy ddefnyddio'r meini prawf sy'n seiliedig ar y rhai a amlinellwyd yn adroddiad Effective Practice Identification and Dissemination (2013) y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid (gweler Ffigur 3 am grynoded). Mae'r canllawiau i'w gweld yma yn y Saesneg [:https://www.justice.gov.uk/downloads/yjb/effective-practice-identification.pdf](https://www.justice.gov.uk/downloads/yjb/effective-practice-identification.pdf).

Cyfweiliadau ffôn gyda 22 o randdeiliaid allweddol sy'n rhan o'r gwaith o gynllunio a darparu llwybrau addysg, hyfforddiant a chyflogaeth i bobl ifanc sy'n rhan o'r system cyfiawnder troseddol. Roedd y cyfweiliadau'n gofyn am ganfyddiad rhanddeiliaid o arferion effeithiol cyfredol. Roedd y rhanddeiliaid yn dod o'r sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol. Roeddynt yn cynnwys Cydgysylltwyr Ymgysylltu a Datblygu awdurdodau lleol a chynrychiolwyr o Fwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru, timau troseddau ieuenctid, darparwyr

² Llywodraeth Cymru a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid. (2014). Plant a Phobl Ifanc yn Gyntaf: Llywodraeth Cymru. Ar gael yn: <https://www.gov.uk/government/publications/youth-justice-strategy-for-wales-children-and-young-people-first>
Welsh Government. (2013). Youth engagement and progression framework - Implementation plan. Welsh Government. Available at: <http://gov.wales/topics/educationandskills/skillsandtraining/youthengagement/?skip=1&lang=cy>

dysgu seiliedig ar waith, Gyrfa Cymru, colegau a lleoliadau diogel (Carchar Ei Mawrhydi Parc a Chartref Plant Diogel Hillside).

Roedd cam dau yn cynnwys 13 o gyfweiliadau dilynol gyda rhanddeiliaid o nifer o sefydliadau lle nodwyd arferion da. Dewiswyd y sefydliadau hyn i sicrhau bod mathau amrywiol o asiantaethau, partneriaethau a llwybrau wedi'u cynrychioli yn yr adnodd, ac nid ar sail ffactorau daearyddol neu ddemograffig. Defnyddiwyd y wybodaeth a gafwyd yn y cyfweiliadau hyn i ddatblygu'r astudiaethau achos gydag enghreifftiau o arferion da wedi'u cyflwyno ym mhenodau 3 i 6.

Cafodd yr adnodd drafft ei gyflwyno a'i drafod mewn gweithdy gyda chynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru, Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid Cymru ac 13 o weithwyr proffesiynol sy'n cefnogi pobl ifanc sy'n rhan o'r system cyfiawnder troseddol i ymgysylltu ag addysg, hyfforddiant a chyflogaeth. Mae'r adnodd terfynol yn cynnwys eu hadborth.

2.3 Sail resymegol dros yr adnodd

Datblygwyd yr adnodd mewn ymateb i adborth gan weithwyr proffesiynol, ac yn arbennig yn sgil ymgynghoriad arolwg gyda Thimau Troseddau Ieuencid ynglŷn â'r *Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuencid* (y *Fframwaith*)³. Roedd yr adborth yn awgrymu bod gweithwyr proffesiynol yn gwerthfawrogi bod egwyddorion y Fframwaith yn eglur ond y byddent yn hoffi mwy o ganllawiau ar sut i weithredu elfennau'r Fframwaith, a gwybodaeth am arferion da sy'n cael eu gweithredu eisoes mewn rhanbarthau, sefydliadau a phartneriaethau eraill.

Nid yw'r adnodd wedi'i gynllunio fel cofnod cynhwysfawr o bob agwedd ar gefnogi pobl ifanc sy'n rhan o'r system gyfiawnder troseddol i gymryd rhan mewn addysg, hyfforddiant a chyflogaeth. Nid yw ychwaith yn cynnwys yr holl enghreifftiau posibl o arferion da yn y meysydd gwaith a drafodwyd. Mae rhai enghreifftiau o arferion da wedi'u hailadrodd mewn ardaloedd a sefydliadau eraill. Fodd bynnag, er mwyn atal yr adnodd rhag bod yn rhy hir, nid ydym wedi cynnwys enghreifftiau lluosog o'r un arfer.

Dewiswyd y sefydliadau sydd wedi'u cynnwys yn yr astudiaethau achos i sicrhau bod mathau amrywiol o asiantaethau, partneriaethau a llwybrau'n cael eu cynrychioli yn yr adnodd, nid ar sail ffactorau daearyddol neu ddemograffig.

Mae nifer o enghreifftiau'n ymwneud ag arferion i gynorthwyo pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth neu sydd mewn

³ Llywodraeth Cymru a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid. (2015). Arolwg Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuencid. Ddim ar gael i'r cyhoedd

perygl o fod yn y sefyllfa honno, ac nid pobl ifanc sy'n rhan o'r system cyfiawnder troseddol yn benodol. Y rheswm am hyn yw bod rhanddeiliaid yn aml yn dweud nad yw darpariaeth i bobl ifanc yn y system cyfiawnder troseddol yn cael ei wahanu oddi wrth ddarpariaeth i bobl ifanc eraill sy'n agored i niwed.

Yn yr un modd, nid oedd rhanddeiliaid bob amser yn nodi arferion gwahanol ar gyfer pobl ifanc 16-18 oed. Er enghraifft, gallai'r bobl ifanc hyn gael eu nodi'n gynnar yn ddelfrydol cyn iddynt adael ysgol (h.y. pan maent o dan 16 oed). Yn yr un modd, mae rhai llwybrau a darpariaeth yn darparu ar gyfer y rhai 16 oed a throsodd ond nid o reidrwydd yn cynnig llwybrau gwahanol i bobl ifanc 16-18 oed, o'u cymharu â'r rhai 19 oed a throsodd. Pan fo arferion yn ymwneud yn benodol â'r rhai 16-18 oed, mae hyn wedi'i nodi yn yr adnodd.

Cyfeiriodd rhanddeiliaid a gymerodd ran mewn cyfweiliadau at nifer o faterion sydd y tu allan i gwmpas yr adnodd hwn. Roedd y rhain yn cynnwys:

Diffyg canllawiau clir, cyfredol ar ddatgelu troseddau.

Diffyg diffiniadau syml, cyffredin o derminoleg cyfiawnder troseddol i'w defnyddio gan ddarparwyr addysg, hyfforddiant a chyflogaeth.

Diffyg canllawiau "gair i gall" i ddarparwyr addysg, hyfforddiant a chyflogaeth ynghylch ymgysylltu â phobl ifanc sydd â chefnidir troseddu.

Rhagwelir y bydd rhagor o waith ymchwil yn cael ei wneud yn y dyfodol, ac y bydd adnoddau ychwanegol yn cael eu datblygu i ymateb i'r bylchau mewn canllawiau ac adnoddau a nodwyd gan weithwyr proffesiynol. Felly, mae'r adnodd hwn yn ceisio ymateb yn gyflym i geisiadau gweithwyr proffesiynol am enghreifftiau o arferion da a chynnig crynodeb cychwynnol o arferion effeithiol yn y maes hwn yng Nghymru.

2.4 Graddio'r enghreifftiau o arferion

Mae Llywodraeth Cymru a Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid Cymru'n cydnabod bod arferion cefnogi pobl ifanc i ymgysylltu ag addysg, hyfforddiant a chyflogaeth yn esblygu ym mhob ardal a sefydliad, a bod hyn yn ymestyn i waith a allai dargedu pobl ifanc 16-18 oed yn y system cyfiawnder troseddol. Felly, byddai llawer o'r arferion a nodwyd yn yr adnodd hwn yn cael eu categoreiddio gan Cordis Bright fel arferion da sy'n datblygu o dan

gategoriâu dosbarthu arferion effeithiol y Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid⁴. Mae'r categorïau i'w gweld yn Ffigur 3.

Mae hyn yn golygu nad yw'r enghreifftiau o arferion yn yr adnodd hwn wedi'u hasesu'n ffurfiol fel rhai effeithiol gan Lywodraeth Cymru, Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid Cymru neu ddulliau gwerthuso eraill; maent yn cael eu hadolygu a'u newid yn barhaus gan bartneriaid sy'n rhan o'r gwaith o'u cynllunio a'u darparu. Serch hynny, gall yr arferion hyn ddarparu man cychwyn i weithwyr proffesiynol sy'n ceisio datblygu eu harferion cyfredol a/neu fynd i'r afael â meysydd penodol sy'n her iddynt.

⁴ Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid. (2013). Effective Practice Identification and Dissemination. Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid.

Ffigur 3: Categoriâu dosbarthu arferion effeithiol y Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid

Categori Ymarfer	Disgrifiad
Wedi'u profi gan ymchwil	Profwyd bod yr arferion a'r rhaglenni hyn, drwy waith ymchwil a gwerthuso o'r safon uchaf, yn cyflawni'r canlyniadau bwriedig ar gyfer y system cyfiawnder ieuencid yn effeithiol.
Tystiolaeth addawol	Mae'r arferion a'r rhaglenni hyn yn dangos tystiolaeth addawol o'u gallu i gyflawni'r canlyniadau bwriedig, ond nid ydynt yn bodloni'r safonau uchaf o ran y dystiolaeth sydd ei hangen i gael eu categoreiddio fel 'wedi'u profi gan ymchwil'.
Tystiolaeth ddatblygol	Dim ond gwybodaeth werthuso gyfyngedig, os o gwbl, sydd gan yr arferion a'r rhaglenni hyn, ond fe'u hystyri'r yr un fath fel enghreifftiau o arloesi llwyddiannus neu o ddyluniad cadarn gan y sector neu gan randdeiliaid eraill.
I'w trin gyda gofal	Mae'r arferion a'r rhaglenni hyn yn dangos peth tystiolaeth o aneffeithiolrwydd ond maen nhw wedi eu gwerthuso i raddau llai na'r rhai yn y categori aneffeithiol. Mewn rhai achosion, fe allen nhw fod yn cynnwys nodweddion dulliau aneffeithiol hysbys (gweler isod), neu eu bod yn mynd yn groes i'r egwyddorion a'r gwerthoedd cyfreithiol neu foesol craidd y mae'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid yn ystyried sy'n sylfaenol i gynnal system cyfiawnder ieuencid foesebol a chyfreithiol.
Aneffeithiol	Canfuwyd nad oes gan yr arferion a'r rhaglenni hyn, ar sail tystiolaeth werthuso drylwyr, unrhyw effaith o ran eu canlyniadau bwriedig, na'u bod yn niweidiol i bobl ifanc.

3. Yr her o ddarparu addysg, hyfforddiant a chyflogaeth i bobl ifanc yn y system cyfiawnder troseddol

3.1 Trosolwg

Mae'r bennod hon yn crynhoi'r prif heriau o gael pobl ifanc sy'n rhan o'r system cyfiawnder troseddol i ymgysylltu ag addysg, hyfforddiant a chyflogaeth ac yn cyflwyno awgrymiadau ar sut i oresgyn y rhain. Mae'r wybodaeth yn y bennod hon wedi'i chymryd o lenyddiaeth a adolygwyd ac o gyfweiliadau gyda gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio yn y maes.

3.2 Crynodeb o'r heriau ac ymatebion a awgrymir

Mae Ffigur 4 yn cyflwyno'r prif heriau o ran cael pobl ifanc sy'n rhan o'r system cyfiawnder troseddol i ymgysylltu ag addysg, hyfforddiant a chyflogaeth ac awgrymiadau ar sut i oresgyn y rhain. Yn arbennig, mae'r amlinelliad o'r prif heriau'n datblygu'r rhwystrau a nodwyd gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid⁵. Gellir rhannu'r heriau i bedwar categori bras:

Personol.

Amgylcheddol.

Gweithredol.

Strategol.

Mae Penodau 3 i 6 yn darparu mwy o fanylion ar agweddau ar arferion da sy'n datblygu fel rhai hanfodol ar gyfer mynd i'r afael â nifer o heriau wrth hwyluso mynediad at addysg, hyfforddiant a chyflogaeth i bobl ifanc 16-18 oed sy'n rhan o'r system cyfiawnder troseddol.

⁵ Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid. (2006). Barriers to engagement in education, training and employment. Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid. Ar gael yma: <http://yjbpublications.justice.gov.uk/Resources/Downloads/Barriers%20to%20ETE%20report%20FINAL.pdf>

Ffigur 4: Heriau o ran darpariaeth addysg, hyfforddiant a chyflogaeth i bobl ifanc sydd â chefnidir cyfiawnder troseddol ac atebion a awgrymir

Math o her	Her benodol	Disgrifiad	Awgrymiadau ar gyfer goresgyn her
Personol	Profiadau negyddol blaenorol o addysg, hyfforddiant a chyflogaeth.	Mae pobl ifanc sydd â chefnidir cyfiawnder troseddol yn aml wedi profi cyrhaeddiad isel ac wedi'u difrio mewn addysg, hyfforddiant a chyflogaeth, yn enwedig yn yr ysgol. Efallai eu bod wedi colli diddordeb neu ymddieithrio o addysg, hyfforddiant a chyflogaeth.	Perthynas gyson rhwng staff a phobl ifanc, yn seiliedig ar gyfathrebu rheolaidd, tryloywder ac ymddiriedaeth. Cefnogi pobl ifanc i ddatblygu hyder a hunan-barch drwy bwysleisio eu dull eu hunain o ymgysylltu'n llwyddiannus ag addysg, hyfforddiant a chyflogaeth a dathlu eu llwyddiannau. Teilwra darpariaeth i ddiwallu anghenion, diddordebau a disgwyliadau person ifanc. Mae hyn yn gwella'r cyfleoedd o gynnal ymgysylltiad a sicrhau canlyniadau llwyddiannus.
Amgylcheddol	Darparu llwybrau addysg, hyfforddiant a chyflogaeth mewn ardaloedd gwledig	Mae darparu llwybrau addysg, hyfforddiant a chyflogaeth mewn ardaloedd gwledig yn cyflwyno rhai heriau penodol: Llai o gyfleoedd addysg, hyfforddiant a chyflogaeth, yn enwedig cyfleoedd profiad gwaith a chyflogaeth. Gall hyn olygu nad oes digon o gyfleoedd i'r bobl ifanc i gyd neu nad yw'r cyfleoedd sydd ar gael yn cyfateb i ddiddordebau'r bobl ifanc.	Gweithio gyda phartneriaid lleol, fel cyflogwyr a'r sector gwirfoddol a chymunedol, i gynyddu nifer y cyfleoedd addysg, hyfforddiant a chyflogaeth a'u lledaeniad daearyddol. Ystyried opsiynau teithio costau isel fel trafnidiaeth gymunedol. Darparu gwarantau teithio i bobl ifanc fel y gallant deithio i ddarpariaeth addysg, hyfforddiant a chyflogaeth am ddim ar drafnidiaeth gyhoeddus.

Math o her	Her benodol	Disgrifiad	Awgrymiadau ar gyfer goresgyn her
		Amser teithio hir neu gostau teithio uchel i fanteisio ar gyfleoedd.	
	Cefnogi datblygiad i gyflogaeth mewn cyd-destun economaidd heriol.	Mae'r hinsawdd economaidd sydd ohoni wedi effeithio ar y cyllid sydd ar gael i ddarpariaeth addysg, hyfforddiant a chyflogaeth a'r farchnad lafur ehangach, sef y ffynhonnell o gyfleoedd swyddi yn y pen draw i bobl ifanc sy'n datblygu drwy ddarpariaeth addysg, hyfforddiant a chyflogaeth.	Adolygu'r ddarpariaeth gyfredol ac ailddyrrannu cyllid i ddarpariaeth sydd wedi profi ei bod yn gallu arwain at gyflogaeth yn effeithiol. Ehangu'r cyfleoedd profiad gwaith a chyflogaeth sydd ar gael, er enghraifft drwy ysgoloriaethau'r sector cyhoeddus, prentisiaethau cyfleoedd gwaith â thâl, y defnydd o'r model menter gymdeithasol a'r defnydd o gymalau manteision cymunedol mewn contractau awdurdodau lleol.
Gweithredol	Diffyg dilyniant dysgu rhwng y ddalfa a'r gymuned.	Yn aml mae diffyg dilyniant rhwng y cyfleoedd dysgu a ddarperir yn y ddalfa ac yn y gymuned. Gall hyn arwain at bobl ifanc yn dechrau cymwysterau/cyfleoedd dysgu mewn un lleoliad, ac yn methu parhau â nhw mewn lleoliad arall. Yn ogystal, gall diffygion o ran trosglwyddo gwybodaeth rhwng lleoliadau carchar a chymunedol olygu nad yw cofnodion o gyraeddiadau addysg, hyfforddiant a chyflogaeth pobl ifanc yn cael eu	Cryfhau arferion rhannu gwybodaeth rhwng lleoliadau carchar a chymunedol i wella'r broses o drosglwyddo gwybodaeth am ymgysylltiad pobl ifanc ag addysg, hyfforddiant a chyflogaeth a'u hanghenion, eu cynlluniau, eu cynnydd a'u cyflawniadau. Mewngymorth i'r ddalfa gan asiantaethau cymunedol, i asesu a sefydlu pecynnau addysg, cyflogaeth a hyfforddiant cyn dyddiad rhyddhau person ifanc. Defnyddio Rhyddhau ar Drwydded Dros Dro i alluogi pobl ifanc sy'n agosáu at

Math o her	Her benodol	Disgrifiad	Awgrymiadau ar gyfer goresgyn her
		<p>cyfathrebu rhwng y lleoliadau, gan arwain at ddyblygu'r dysgu neu oedi/torri llwybrau addysg, hyfforddi a chyflogaeth a gynlluniwyd i bobl ifanc unigol.</p>	<p>eu dyddiad rhyddhau ymweld â lleoliadau addysg, hyfforddiant a chyflogaeth yn y gymuned.</p> <p>Sicrhau bod darpariaeth addysg, hyfforddiant a chyflogaeth ar gael i bobl ifanc yn syth wedi iddynt gael eu rhyddhau o'r ddalfa, yn cynnwys cynnig darpariaeth fyrdymor i bontio unrhyw amseroedd aros am ddarpariaeth hirdymor addas.</p> <p>Ymdrechion, lle bo'n bosibl, i alluogi pobl ifanc yn y ddalfa i barhau ar lwybrau addysg, hyfforddiant a chyflogaeth a ddechreuwyd yn y gymuned, neu i gynnal eu hymgysylltiad yn ddigonol i allu ailafael yn y llwybr hwn ar ôl cael eu rhyddhau. Mae enghreifftiau o ddulliau'n cynnwys: dysgu o bell; cymorth addysg, hyfforddiant a chyflogaeth un-i-un; annog staff lleoliadau diogel, nad ydynt yn staff addysg, hyfforddiant a chyflogaeth arbenigol, (e.e. swyddogion carchardai) i gymryd diddordeb mwy gweithredol yn addysg, hyfforddiant a chyflogaeth pobl ifanc.</p>
	<p>Nid yw'r ddarpariaeth sydd ar gael yn cyfateb i</p>	<p>Yn aml, mae pobl ifanc sydd â chefnidir cyfiawnder troseddol yn ymgysylltu orau â gweithgareddau dysgu cinesthetig ac yn mwynhau</p>	<p>Dylid addasu'r amgylchedd dysgu i ddiwallu anghenion llawer o bobl ifanc yn y cohort hwn. Er enghraifft, dywedodd rhanddeiliaid fod dosbarthiadau bach,</p>

Math o her	Her benodol	Disgrifiad	Awgrymiadau ar gyfer goresgyn her
	ddiddordebau neu arddulliau dysgu a ffafir gan bobl ifanc.	dysgu sgiliau ymarferol a darpariaeth addysg, hyfforddiant a chyflogaeth sy'n gysylltiedig yn uniongyrchol â gwaith yn eu barn nhw. Ar hyn o bryd, nid yw'r ddarpariaeth bob amser yn bodloni'r dymuniadau hyn.	dysgu seiliedig ar weithgareddau a dysgu cysylltiedig â gwaith i gyd yn fuddiol ar gyfer ymgysylltu â phobl ifanc sydd â chefnidir cyfiawnder troseddol. Dylid asesu arddulliau ac anghenion dysgu unigol person ifanc yn systematig ar ddechrau ei ymgysylltiad a dylid teilwra darpariaeth lle bo'n bosibl i fod yn addas i arddull ac anghenion y person ifanc dan sylw.
	Diffyg darpariaeth i bobl ifanc ag anghenion addysgol arbennig (AAA) neu anghenion dysgu ychwanegol (ADY).	Mae gan nifer uchel anghymesur o bobl ifanc â chefnidir cyfiawnder troseddol AAA/ADY, o'u cymharu â'r rhai heb gefndir cyfiawnder troseddol ⁶ . Ar hyn o bryd, nid yw llwybrau addysg, hyfforddiant a chyflogaeth i bobl ifanc â chefnidir cyfiawnder troseddol yn cynnig digon o gymorth i'r rhai ag AAA/ADY neu ymddygiad heriol, sy'n gallu arwain at bobl ifanc sydd angen y cymorth hwn yn ymddieithrio o addysg, hyfforddiant a chyflogaeth neu gael eu heithrio o ddarpariaeth.	Cymarebau staff i bobl ifanc uchel er mwyn darparu cymorth un-i-un a darpariaeth grwpiau bach. Darparu cyllid ychwanegol i recriwtio staff arbenigol i weithio gyda phobl ifanc ag AAA/ADY neu ymddygiad heriol. Darparu hyfforddiant arbenigol i staff cyfredol ar weithio gyda phobl ifanc ag AAA/ADY neu ymddygiad heriol.
Strategol	Nid yw	Weithiau mae diffyg eglurder	Awdurdodau lleol yn ysgwyddo'r prif

⁶ Gweler, er enghraifft: <http://www.prisonreformtrust.org.uk/Publications/vw/1/ItemID/67>.

Math o her	Her benodol	Disgrifiad	Awgrymiadau ar gyfer goresgyn her
	<p>partneriaid strategol bob amser yn mynd i'r afael yn ddigonol â natur y materion sy'n effeithio ar weithrediad.</p>	<p>ynghylch pa bartner sydd â phrif gyfrifoldeb am strategaeth, neu am roi'r strategaeth ar waith.</p> <p>Nid yw protocolau rhwng partneriaid bob amser yn mynd i'r afael â'r holl faterion angenrheidiol neu'n cynnwys y lefel manylion sydd ei hangen.</p> <p>Nid oes gan bartneriaid sy'n rhan o'r gwaith o ddatblygu strategaeth ddealltwriaeth ddigonol o'r system cyfiawnder troseddol bob amser.</p> <p>Mae gan sefydliadau sy'n darparu addysg, hyfforddiant a chyflogaeth i bobl ifanc yn y system cyfiawnder troseddol amcanion, targedau a gweithdrefnau asesu risg gwahanol. Gall hyn achosi oedi ac anghysondeb mewn darpariaeth a llwybrau</p>	<p>gyfrifoldeb am ddarparu ar gyfer anghenion addysg, hyfforddiant a chyflogaeth yr holl bobl ifanc sy'n rhan o'r system cyfiawnder troseddol⁷.</p> <p>Cyflwyno protocolau ysgrifenedig a threfniadau traws-sefydliadol manylach a gwaith partneriaeth a rhannu gwybodaeth cyson yn seiliedig ar ddealltwriaeth drylwyr o arferion a chyfrifoldebau ei gilydd.</p> <p>Cynyddu gwybodaeth ac ymwybyddiaeth ymysg yr holl weithwyr proffesiynol sy'n darparu addysg, hyfforddiant a chyflogaeth o'r heriau y gall pobl ifanc eu hwynebu unwaith maent yn rhan o'r system cyfiawnder troseddol.</p>

⁷ Mae'r angen i awdurdodau lleol ysgwyddo'r prif gyfrifoldeb am sicrhau darpariaeth addysg, hyfforddiant a chyflogaeth wedi'i fynegi'n glir yn nogfen Llywodraeth Cymru (2015) *Cynnwys a chynorthwyo disgyblion canllawiau drafft*, sydd ar gael yma: <http://gov.wales/docs/dcells/consultation/151216-inclusion-and-pupil-support-draft-guidance-cy.pdf>

Math o her	Her benodol	Disgrifiad	Awgrymiadau ar gyfer goresgyn her
		addysg, hyfforddiant a chyflogaeth.	

4. Llwybrau pobl ifanc i a thrwy addysg, hyfforddiant a chyflogaeth

4.1 Negeseuon allweddol

Mae yna sawl nodwedd o ddarpariaeth addysg, hyfforddiant a chyflogaeth sy'n gallu gwella ymgysylltiad pobl ifanc sy'n rhan o'r system cyfiawnder troseddol. Mae'r rhain yn cynnwys:

Nodi pobl ifanc sydd mewn perygl o ymddieithrio o addysg, hyfforddiant a chyflogaeth yn gynnar.

Darpariaeth gyfannol i ddiwallu ystod lawn anghenion person ifanc.

Cymorth cyson wedi'i bersonoleiddio gydol eu taith addysg, hyfforddiant a chyflogaeth, yn seiliedig ar feithrin perthynas o ymddiriedaeth rhwng pobl ifanc a staff/gwirfoddolwyr.

Dysgu seiliedig ar weithgareddau a galwedigaethol ar gyfer dysgwyr cinesthetig⁸.

Darpariaeth un-i-un a grwpiau bach.

Rheoli disgwyliadau pobl ifanc o ddarpariaeth addysg, hyfforddiant a chyflogaeth a'r canlyniadau posibl y gellir eu cefnogi i'w cyflawni.

Mae astudiaethau achos o arferion da sy'n datblygu yn canolbwyntio ar y dulliau a'r sefydliadau canlynol:

Teilwra darpariaeth a defnyddio menter gymdeithasol i hyrwyddo ymgysylltu a datblygu yn y gymuned: Canolfan Pobl Ifanc Cwmbrân a Randomz.

Teilwra darpariaeth addysg, hyfforddiant a chyflogaeth i hyrwyddo ymgysylltu a datblygu mewn lleoliad diogel: Cartref plant diogel Hillside.

Datblygu cynllun profiad gwaith lleol i bobl ifanc 16-18 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant: Ieuenctid Sir Benfro.

Secondio cynghorydd Gyrfa Cymru i Dîm Troseddau Ieuenctid i gynyddu dwysedd ac ansawdd darpariaeth a chymorth addysg,

⁸ Mae'n well gan ddysgwyr cinesthetig ddysgu drwy gyflawni gweithgareddau, yn hytrach na gwrandao ar ddarlith, gwyllo arddangosiadau neu ddarllen deunyddiau.

hyfforddiant a chyflogaeth mewnol: Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Ceredigion.

4.2 Tystiolaeth o lenyddiaeth gyfredol

Mae'r llenyddiaeth yn nodi pedwar prif faes o arferion da i gefnogi ymgysylltiad pobl ifanc mewn addysg, hyfforddiant a chyflogaeth:

Nodi pobl ifanc sy'n NEET neu sy'n debygol o ddod yn NEET yn gynnar.

Darpariaeth sy'n canolbwyntio ar bobl ifanc a chymorth cofleidiol.

Dysgu seiliedig ar weithgareddau a dysgu galwedigaethol.

Mae'r rhain wedi'u disgrifio'n fanylach yn Ffigur 5.

Ffigur 5: Arferion da o ran cefnogi pobl ifanc i ymgysylltu ag addysg, hyfforddiant a chyflogaeth – tystiolaeth o'r adolygiad o lenyddiaeth

Maes arferion da	Disgrifiad
Nodi pobl ifanc yn gynnar.	<p>Mae mynd ati'n gynnar i nodi pobl ifanc sy'n rhan o'r system cyfiawnder troseddol ac sydd mewn perygl mawr o fod yn bobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yn y dyfodol yn hanfodol er mwyn diwallu anghenion y bobl ifanc hyn yn fuan a chynllunio ymyriad priodol i'w cefnogi. Dylai dulliau nodi cynnar ganolbwyntio ar:</p> <ul style="list-style-type: none"> Nodi ffactorau risg. Pwysoli ffactorau risg. Gweithredu pecynnau cymorth.
Darpariaeth sy'n canolbwyntio ar bobl ifanc a chymorth cofleidiol.	<p>Gall canolbwyntio ar anghenion unigol pobl ifanc gyfrannu at hwyluso eu hymgysylltiad ag addysg, hyfforddiant a chyflogaeth a'u mynediad iddo. Yn arbennig, mae pobl ifanc yn aml yn elwa ar dderbyn cymorth wedi'i dargedu yn y meysydd canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> Mynd i'r afael â materion seicolegol, cymdeithasol ac ymarferol ehangach: gall cymorth cofleidiol wella sefydlogrwydd i berson ifanc, gwella lles cyffredinol a'r cyfleoedd i ymgysylltu'n llwyddiannus ag addysg, hyfforddiant a chyflogaeth. Goresgyn canfyddiadau negyddol o addysg, hyfforddiant a chyflogaeth: mae gweithiwr proffesiynol sy'n gwybod am brofiadau negyddol person ifanc yn y gorffennol yn yr ysgol neu yn y gwaith yn y lle gorau i'w ysbrydoli i ail-ymgysylltu â chyfleoedd addysg, hyfforddiant a chyflogaeth.
Dysgu seiliedig ar weithgareddau a dysgu galwedigaethol.	<p>Mae dysgu seiliedig ar weithgareddau a dysgu galwedigaethol drwy brofiad gwaith yn aml yn addas i arddulliau dysgu a diddordebau pobl ifanc sydd â chefnidir cyfiawnder troseddol. Mae'r gweithgareddau hyn yn rhoi cyfle i bobl ifanc ddysgu a rhoi'r hyn a ddysgwyd ar waith mewn ffyrdd ymarferol, gan sicrhau canlyniadau sy'n gallu rhoi hwb i'w hyder yn aml.</p>

4.3 Canfyddiadau rhanddeiliaid o arferion da

Nododd rhanddeiliaid pa mor hollbwysig oedd y canlynol:

Trefniadau recriwtio, hyfforddi a datblygu staff sy'n cefnogi arferion cyson ac yn datblygu cymwyseddau craidd yn y gweithle.

Cymorth cyfannol, cyson wedi'i bersonoleiddio. Mae hyn yn meithrin perthynas ac yn sicrhau bod anghenion a diddordebau person ifanc yn cael eu nodi a'u hyrwyddo. Mae'r cymorth hwn yn cael ei ddarparu'n aml gan weithwyr allweddol sy'n rhan o'r darparwr addysg, hyfforddiant a chyflogaeth, staff cymorth dysgu a mentoriaid, yn cynnwys mentoriaid sy'n gymheiriaid. Os yw person ifanc angen cymorth i fynd i'r afael â materion emosiynol a seicolegol mwy cymhleth mae cwnselwyr yn rhan allweddol o'r ddarpariaeth. Gall y rhain fod yn gysylltiedig â lleoliad addysg, hyfforddiant a chyflogaeth (e.e mewn ysgolion neu golegau) neu gallant gael eu darparu drwy wasanaeth arall (e.e. Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed) fel rhan o gymorth aml-asiantaeth i berson ifanc. Gall staff sy'n gweithio'n benodol i wybod beth yw anghenion ac amgylchiadau pobl ifanc hyrwyddo eu hymgysylltiad ag addysg, hyfforddiant a chyflogaeth mewn ffyrdd amrywiol, er enghraifft, drwy gyfeirio'r person ifanc i gyfleoedd addas a gwasanaethau cymorth neu drwy fynd â pherson ifanc i'w apwyntiadau addysg, hyfforddiant a chyflogaeth.

Teilwra cynnwys a strwythur darpariaeth addysg, hyfforddiant a chyflogaeth i gyfateb i anghenion ac amgylchiadau pobl ifanc. Mae rhanddeiliaid yn credu bod darpariaeth addysg, hyfforddiant a chyflogaeth effeithiol i bobl ifanc sy'n rhan o'r system cyfiawnder troseddol yn aml yn cynnwys y nodweddion a amlinellir yn Ffigur 6.

Nododd nifer o rhanddeiliaid a holwyd Symud Ymlaen Moving Forward fel enghraifft o ddarpariaeth sy'n targedu pobl ifanc 16-18 oed sydd wedi bod yn rhan o'r system cyfiawnder troseddol. Dywedodd llawer o'r rhanddeiliaid hyn fod y ddarpariaeth hon yn llwyddo i ymgysylltu pobl ifanc mewn addysg, hyfforddiant a chyflogaeth ac yn eu cefnogi i ddatblygu yn y maes. Mae rhagor o wybodaeth am Symud Ymlaen Moving Forward yma:

<http://symfwales.org.uk/cy.html>

Fodd bynnag, nid yw Symud Ymlaen Moving Forward wedi'i gynnwys fel enghraifft o arfer da gan fod adroddiad gwerthuso annibynnol eisoes wedi darparu manylion am weithrediad ac effaith y ddarpariaeth.

https://www.biglotteryfund.org.uk/prog_getting_ahead

Ffigur 6: Nodweddion darpariaeth addysg, hyfforddiant a chyflogaeth effeithiol

Nodwedd	Disgrifiad
Cefnogi ymgysylltu	Mae hyn yn cynnwys: Dod i wybod beth yw anghenion penodol person ifanc cyn iddo dderbyn darpariaeth neu'n gynnar iawn ar ôl iddo ddechrau.
Rheoli disgwyliadau'r person ifanc	Mae hyn yn golygu bod yn realistig am beth all y person ifanc ei gyflawni a sicrhau cydbwysedd rhwng ei ddyheadau a'r ddarpariaeth sydd ar gael. Mae Gyrfa Cymru wedi datblygu prospectws ar-lein o gyfleoedd addysg, hyfforddiant a chyflogaeth ôl-16 oed, sy'n cyflwyno crynodeb o'r ddarpariaeth sydd ar gael mewn gwahanol ardaloedd. Fe'i cynlluniwyd fel bod pobl ifanc yn gallu ei ddefnyddio gyda neu heb gymorth gan weithwyr proffesiynol. Gellir ei weld yma: http://www.careerswales.com/cy/cap/
Cymysgu gweithgareddau dysgu damcaniaethol ac ymarferol	Mae pobl ifanc sy'n rhan o'r system cyfiawnder troseddol yn ddysgwyr cinesthetig yn aml, felly mae'n well ganddynt ddysgu mewn amgylcheddau amrywiol yn hytrach na gweithgareddau mewn ystafell ddosbarth arferol.
Darpariaeth un-i-un a grwpiau bach	Mae dosbarthiadau bach yn sicrhau bod pobl ifanc yn derbyn ymyriadau wedi'u teilwra ac yn dueddol o wella eu hyder a gwneud iddynt deimlo'n gartrefol yn y lleoliad.
Cefnogi integreiddio mewn darpariaeth prif ffrwd	Mae llawer o ddarparwyr yn darparu'r cymorth ychwanegol sy'n angenrheidiol ar bobl ifanc sy'n rhan o'r system cyfiawnder troseddol i gael mynediad at ddarpariaeth ochr yn ochr â dysgwyr nad ydynt yn rhan o'r system cyfiawnder troseddol. Mae hyn yn sicrhau nad yw'r bobl ifanc sy'n rhan o'r system cyfiawnder troseddol yn teimlo'n ynysig nac wedi'u gwarthnodi. Mae hefyd yn osgoi dyblygu gwasanaethau.
Cymorth parhaus	Mae hyn yn golygu cymorth parhaus yn dilyn trosglwyddo o wasanaeth (e.e. cymorth parhaus gan Dîm Troseddau leuenctid / Gyrfa Cymru / asiantaeth arall a nodwyd neu fentor).

4.4 Astudiaethau achos gydag enghreifftiau o arferion da

4.4.1 Teilwra darpariaeth a defnyddio menter gymdeithasol i hyrwyddo ymgysylltu a datblygu yn y gymuned: Canolfan Pobl Ifanc Cwibrân a Randomz

Pwy allai efelychu'r arferion hyn?

Darparwyr addysg, hyfforddiant a chyflogaeth yn y gymuned sy'n ceisio gwella ymgysylltiad a chanlyniadau pobl ifanc sy'n rhan o'r system cyfiawnder troseddol.

Beth yw manteision efelychu'r arferion hyn?

Mae'r model menter gymdeithasol a ddefnyddir yma'n cynhyrchu incwm i gefnogi cynaliadwyedd Canolfan Pobl Ifanc Cwibrân.

Mae Canolfan Pobl Ifanc Cwibrân a Randomz yn ymgysylltu â phobl ifanc mewn dysgu seiliedig ar weithgareddau sy'n:

Darparu sgiliau ymarferol iddynt i wella eu cyflogadwyedd.

Eu hannog i arwain prosiectau a meddwl am eu syniadau eu hunain i wella'r ddarpariaeth.

Datblygu eu hymdeimlad o berchnogaeth o Ganolfan Pobl Ifanc Cwibrân a Randomz, gan wella eu hymgysylltiad. Cefnogi gwaith bob dydd Canolfan Pobl Ifanc Cwibrân a Randomz.

Y sefydliadau

Elusen sy'n gweithio gyda phobl ifanc 7-25 oed yw Canolfan Pobl Ifanc Cwibrân. Mae wedi'i lleoli yng nghanol Cwibrân, gyda mynediad hawdd at gysylltiadau trafndiaeth lleol. Mae'n gweithredu fel canolfan leol i bobl ifanc sydd am fanteisio ar gymorth a gweithgareddau, yn cynnwys darpariaeth addysg, hyfforddiant a chyflogaeth. Mae rhaglen hyfforddeiaeth Canolfan Pobl Ifanc Cwibrân yn targedu pobl ifanc 16-18 oed. Fel arfer, mae gan y Ganolfan rhwng 10 ac 20 o bobl ifanc yn dilyn hyfforddeiaethau ar un adeg ac fel arfer mae un neu ddau o'r bobl ifanc hyn yn rhan neu wedi bod yn rhan o'r system cyfiawnder troseddol.

Mae Canolfan Pobl Ifanc Cwibrân yn rhiant-gwmni i fenter gymdeithasol o'r enw Randomz, sy'n darparu hyfforddiant, sgiliau a chymorth i bobl ifanc gael swydd neu sefydlu eu busnes/menter gymdeithasol eu hunain. Mae hefyd yn cynnal rhaglen hyfforddeiaeth sy'n targedu pobl ifanc 16-18 oed. Mae Randomz yn cynhyrchu incwm drwy gynllunio, gweithgynhyrchu, ailgylchu a gwerthu cynhyrchion. Mae'n cyfrannu felly at gynaliadwyedd Canolfan Pobl Ifanc

Cwmbrân, gan ei gwneud yn llai dibynnol ar grantiau a chontractau. Mae gan Randomz wefan, ewch i: <http://www.randomz.co.uk/>.

Cynnwys a strwythur darpariaeth i fod yn addas i bobl ifanc sy'n rhan o'r system cyfiawnder troseddol: elfennau i'w hefelychu

Cynnig darpariaeth integredig

Mae pobl ifanc sydd â chefnidir troseddu a phobl ifanc nad oes ganddynt gefndir troseddu yn derbyn yr un ddarpariaeth yng Nghanolfan Pobl Ifanc Cwmbrân a Randomz, er bod y cymorth a dderbyniant i ymgysylltu â'r ddarpariaeth yn amrywio yn seiliedig ar anghenion. Y nod yw cefnogi pobl ifanc o bob cefndir i integreiddio a theimlo'n gyffyrddus yn y ganolfan, ac osgoi gyrru pobl ifanc i'r cyrion neu eu gwarthnodi ar sail eu cefndir.

Creu canolfannau sy'n gweithredu fel hybiau

Mae Canolfan Pobl Ifanc Cwmbrân a Randomz yn darparu neu'n cynnal cymaint o ddarpariaeth â phosibl yn fewnol yn y canolfannau. Mae'r Ganolfan yn cynnal grwpiau galw-i-mewn ac ieuencid bob dydd min nos, sy'n canolbwyntio ar gael pobl ifanc i ymgysylltu â'r ganolfan cyn eu hannog i ymgysylltu â darpariaeth addysg, hyfforddiant a chyflogaeth fwy strwythuredig. Mae hefyd yn cynnal gweithgareddau gan wasanethau a grwpiau lleol eraill sy'n cefnogi pobl ifanc, yn cynnwys gwahodd darparwyr hyfforddiant eraill i ddarparu sesiynau. Mae hyn yn cynyddu'r amrywiaeth o gyfleoedd i bobl ifanc ddechrau ymgysylltu â'r ganolfan, ac yn eu hannog i gamu ymlaen rhwng cyfleoedd mewn amgylchedd lle maent yn teimlo'n hyderus a chyffyrddus.

Defnyddio dysgu seiliedig ar weithgareddau fel sail i ddarpariaeth

Mae llawer o'r dysgu mewn darpariaeth addysg, hyfforddiant a chyflogaeth yng Nghanolfan Pobl Ifanc Cwmbrân a Randomz yn seiliedig ar weithgareddau. Mae'r Ganolfan yn annog pobl ifanc i gymryd cyfrifoldeb am brosiectau penodol ac i ddysgu drwy gyflawni'r rhain. Mae enghreifftiau'n cynnwys: trefnu diwrnod agored y ganolfan ac ymweliadau â'r ganolfan gan sefydliadau lleol; cynnal banc bwyd lleol; cynnal gweithgareddau tymhorol (e.e. gwerthu coed Nadolig); a bod yn gyfrifol am arlwygo yn y ganolfan (o siopa bwyd i goginio). Mae statws Randomz fel menter gymdeithasol yn llywio llawer o'i darpariaeth addysg, hyfforddiant a chyflogaeth. Mae pobl ifanc ar hyfforddiaethau'n gweithio fel gweithwyr wedi'u his-gontractio yn y fenter gymdeithasol, sy'n canolbwyntio ar gynllunio, gweithgynhyrchu, ailgylchu a gwerthu cynhyrchion. Mae Randomz hefyd yn cynnal cyrsiau celfyddydau creadigol a chwaraeon, rhai ohonynt wedi'u hachredu.

Hyrwyddo pontio didrafferth rhwng gwasanaethau partner

Gan fod gan Ganolfan Pobl Ifanc Cwmbrân a Randomz gysylltiad agos a'u bod wedi'u lleoli tua milltir oddi wrth ei gilydd mae'n hawdd i bobl ifanc fynd o un lleoliad i'r llall. Pan fo pobl ifanc yn troi at y Ganolfan neu Randomz am gymorth,

maent yn cael eu hasesu i ddewis y llwybr mwyaf priodol iddyn nhw. Mae gan bobl ifanc sy'n ymuno â'r naill sefydliad neu'r llall lwybr pwrpasol felly yn dibynnu ar eu diddordebau a'u hanghenion; mae hyn yn golygu y gall person ifanc ymgysylltu â gweithgareddau Randomz i ddechrau yna fanteisio ar gyfle yn y Ganolfan, neu fel arall.

Cynorthwyo pobl ifanc sy'n rhan o'r system cyfiawnder troseddol i ymgysylltu a datblygu: elfennau i'w hefelychu

1. Ymgynghori â phobl ifanc a gweithredu ar eu hawgrymiadau

Mae Canolfan Pobl Ifanc Cwibrân a Randomz yn datblygu eu darpariaeth mewn ymateb i ymgynghoriad rheolaidd â phobl ifanc. Maent yn cynnal cyrsiau a phrosiectau y mae pobl ifanc yn mynegi diddordeb ynddynt ac yn eu mwynhau. Sefydlwyd Randomz yn dilyn ymgynghoriad â 250 o bobl ifanc.

Hyrwyddo ymdeimlad o berchnogaeth

Mae pobl ifanc yn cael eu hannog i fod yn gyfrifol am agweddau ar waith bob dydd y canolfannau (fel gweithio yn y fenter gymdeithasol yn Randomz neu arlwyo yn y Ganolfan). Mae hyn yn hyrwyddo ymgysylltiad gan fod pobl ifanc yn teimlo'n falch o'r ganolfan ac o'u cyfraniad tuag ati.

Cynnig cymorth pwrpasol un-i-un a chymorth i grwpiau

Mae gan bob person ifanc yn y canolfannau weithiwr allweddol a swyddog hyfforddiant. Mae Randomz yn cynnal asesiad risg i bob person ifanc sydd â chefnidir cyfiawnder troseddol yna'n cynnig cymorth dwys iddynt ddatblygu eu sgiliau a'u helpu i oresgyn rhwystrau a allant fod yn eu hwynebu. Mae pobl ifanc â chefnidir troseddu'n cymryd rhan mewn gwaith grŵp bach penodol a sesiynau un-i-un.

Cynnal gweithgareddau sy'n cael eu trefnu gan y Tîm Troseddau leuenctid

Mae'r Tîm Troseddau leuenctid lleol yn defnyddio adeilad Canolfan Pobl Ifanc Cwibrân i gynnal grŵp trafod i bobl ifanc sydd â chefnidir cyfiawnder troseddol. Nid yw hwn yn cynnwys staff y Ganolfan ond mae defnyddio'r adeilad yn golygu bod y bobl ifanc yn dod yn gyfarwydd â'r lle ac weithiau mae pobl ifanc wedi defnyddio darpariaeth y Ganolfan ar ôl mynychu'r sesiynau hyn.

Bod yn hyblyg gyda'ch darpariaeth

Gan fod y Ganolfan ar agor fin nos ac ar ddydd Sadwrn mae'n rhoi cyfle i bobl ifanc ymgysylltu ar adegau sy'n addas iddyn nhw. Yn ogystal, mae'r Ganolfan yn ceisio gweithio gydag ymgysylltiad anghyson drwy alluogi pobl ifanc i gwblhau'r oriau maent wedi'u colli ar adeg arall. Mae staff hefyd yn sensitif i hwyliau pobl ifanc a sut gall y rhain effeithio ar ansawdd eu hymgysylltu: er enghraifft, os yw person ifanc yn cyrraedd yn teimlo'n flin iawn neu o dan straen byddai'n cael cynnig cymorth ond hefyd y cyfle i ddychwelyd ddiwrnod arall i gwblhau ei oriau addysg, hyfforddiant a chyflogaeth.

Cynnwys cymorth ymarferol i gamu ymlaen i gyflogaeth

Wrth gefnogi pobl ifanc i gamu ymlaen i gyflogaeth mewn sefydliad arall mae Randomz yn cynnig cymorth ymarferol gyda materion fel prynu/golchi dillad priodol, torri gwallt, a chael rhywbeth i'w fwyta a'i yfed ddiwrnod y cyfweiliad.

4.4.2 Teilwra darpariaeth addysg, hyfforddiant a chyflogaeth i hyrwyddo ymgysylltu a datblygu mewn lleoliad diogel: Cartref plant diogel Hillside

Pwy allai efelychu'r arferion hyn?

Lleoliadau diogel sy'n ceisio gwella ymgysylltiad pobl ifanc â'u darpariaeth addysg, hyfforddiant a chyflogaeth fewnol.

Beth yw manteision efelychu'r arferion hyn?

Mae darparu cyrsiau byr, achrededig yn cynyddu gobeithion person ifanc o fedru cwblhau un neu fwy o gyrsiau yn ystod ei amser yn y ddalfa. Mae hefyd yn sicrhau bod modd trosglwyddo cymwysterau a'u bod yn cyfrannu at ddatblygiad cyffredinol person ifanc drwy addysg, hyfforddiant a chyflogaeth.

Mae cynnwys pobl ifanc wrth gynllunio eu taith addysg, hyfforddiant a chyflogaeth, gan ddarparu cymorth dwys i ymgysylltu ac ymgysylltiad sy'n rhoi boddhad yn hyrwyddo ymgysylltiad â darpariaeth fewnol.

Y sefydliad

Uned 22 gwely yw cartref plant diogel Hillside. Mae 6 gwely yn welyau cyfiawnder ieuenctid⁹, ar gyfer pobl ifanc 11-18 oed. Mae pobl ifanc yn aros tua thri mis yn Hillside fel arfer. Mae'r elfen addysg yn orfodol yno. Nid yw llawer o bobl ifanc sy'n dod i Hillside wedi cael cyfle i ymgysylltu'n gadarnhaol ag addysg o'r blaen ac yn aml maent yn ffynnu ar y sefydlogrwydd mae Hillside yn ei gynnal.

Cynnwys a strwythur darpariaeth i fod yn addas i bobl ifanc sy'n rhan o'r system cyfiawnder troseddol: elfennau i'w hefelychu

1. Darparu cyrsiau byr

Mae Hillside yn darparu sawl cwrs byr ymarferol yn y cartref. Mae'r rhain yn cynyddu nifer y bobl ifanc sy'n gallu eu mynychu a'u cwblhau yn ystod eu harhosiad yn Hillside. Maent yn addas iawn i bobl ifanc a allai fod wedi cael profiadau negyddol o addysg brif ffrwd hefyd. Mae cyrsiau byr:

Yn gweithio fel sesiynau blasu i bobl ifanc i'w helpu i benderfynu ar eu diddordebau a'u cynlluniau hirdymor ar

⁹ Hyd at ac yn cynnwys Mawrth 2016, roedd y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid wedi contractio 10 gwely cyfiawnder ieuenctid yng Nghartref Plant Diogel Hillside. Cafodd hyn ei ostwng i 6 o Ebrill 2016 i adlewyrchu'r lleihad yn nifer y plant sydd yn y ddalfa.

gyfer addysg, hyfforddiant a chyflogaeth.

Ond yn gofyn i bobl ifanc ymrwymo eu hunain am gyfnod byr o amser. Mae hyn yn ddefnyddiol i bobl ifanc nad ydynt wedi arfer ymrwymo am gyfnodau hir ac y gallent gynnal eu hymrwymiad am gyfnod hwy.

Yn cynnig cyfleoedd rheolaidd i gwblhau cwrs a derbyn tystysgrif. Mae hyn yn ddefnyddiol i ddatblygu hyder pobl ifanc a'u hunangred mewn perthynas ag addysg, hyfforddiant a chyflogaeth.

Cynnig cyfleoedd dysgu seiliedig ar weithgareddau

Mae gan Hillside gyfleusterau da i gefnogi dysgu seiliedig ar weithgareddau, yn cynnwys campfa, ystafell adeiladu a gweithdai. Mae enghreifftiau o gyrсияu mwy ymarferol yn cynnwys celfyddydau creadigol, ailgylchu a choginio.

Darparu cyrsiau achrededig

Mae Hillside yn cynnig rhai cyrsiau sydd wedi'u hachredu gan Agored Cymru. Mae unedau Agored Cymru'n cael eu cydnabod gan lawer o ddarparwyr eraill ac mae hyn yn osgoi dyblygu pan fo person ifanc yn gadael y ddalfa ac yn dechrau ar addysg, hyfforddiant a chyflogaeth yn y gymuned.

Cyrsiau a gynhelir gan asiantaethau allanol

Mae Hillside yn gwahodd asiantaethau lleol i gynnal cyrsiau byr yn y cartref. Mae enghreifftiau'n cynnwys y gwasanaeth tân, clybiau pêl-droed a rygbi. Mantais hyn yw bod y bobl ifanc yn cael cyfarfod gweithwyr proffesiynol sy'n gwneud amrywiaeth o swyddi gwahanol. Gall roi hwb i'w dyheadau a rhoi syniadau iddynt am eu datblygiad ym maes addysg, hyfforddiant a chyflogaeth. Mae hefyd yn eu hannog i ryngweithio ag oedolion nad ydynt ar staff Hillside.

Cynorthwyo pobl ifanc sy'n rhan o'r system cyfiawnder troseddol i ymgysylltu a datblygu: elfennau i'w hefelychu

1. Cynnwys y person ifanc wrth gynllunio llwybr pwrpasol drwy addysg, hyfforddiant a chyflogaeth yn y ddalfa a'r gymuned

Mae Hillside yn derbyn gwybodaeth fanwl am berson ifanc cyn iddo gyrraedd o'r Tîm Troseddau leuenctid a/neu'r awdurdod lleol. Wrth gyrraedd Hillside bydd person ifanc yn cwblhau asesiad o sgiliau craidd, sy'n cael ei ailadrodd pan fydd yn gadael i fesur datblygiad. Mae pobl ifanc yn cymryd rhan mewn cyfarfod cynllunio cychwynnol lle maent yn trafod eu dyheadau ac yn cyfrannu at gynllunio eu llwybr addysg, hyfforddiant a chyflogaeth gan ddechrau gyda darpariaeth fewnol yn Hillside ac yn ymestyn i gynllunio ar gyfer eu darpariaeth addysg, hyfforddiant a chyflogaeth ar ôl ailsefydlu.

Darparu cymorth cofleidiol, dwys i alluogi pobl ifanc i ymgysylltu ag addysg, hyfforddiant a chyflogaeth

Mae Hillside yn cynnig cymorth cofleidiol, dwys i bobl ifanc. Mae hyn yn cynnwys cymorth un-i-un dyddiol i fynd i'r afael ag ystod o faterion a allai effeithio ar eu hymgysylltiad ag addysg, hyfforddiant a chyflogaeth. Mae hefyd yn cynnwys gwaith paratoi i sicrhau bod person ifanc yn barod am addysg, hyfforddiant a chyflogaeth cyn iddo adael, yn cynnwys:

Meithrin sgiliau meddal, fel hyder a chyfathrebu.

Datblygu sgiliau cyflogadwyedd fel cyfweliadau ffug, blas ar waith, gwaith CV a chyllidebu personol.

Defnyddio gwobrau i hyrwyddo ymgysylltiad ag addysg, hyfforddiant a chyflogaeth

Mae Hillside yn defnyddio system wobrwyo i annog pobl ifanc i ymgysylltu ag addysg, hyfforddiant a chyflogaeth a'r cymorth arall sydd ar gael. Mae pobl ifanc yn derbyn pwyntiau am fynychu sesiynau gwaith allweddol, am ymddygiad da a pherfformiad yn ystod gweithgareddau. Mae pwyntiau'n datgloi bonysau gwahanol, fel: mwy o gyfleusterau yn eu stafell wely; mwy o gyswllt a gweithgareddau hamdden; cael mynd i'r gwely'n hwyrach neu fwy o arian poced.

4.4.3 Datblygu cynllun profiad gwaith lleol i bobl ifanc 16-18 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth a hyfforddiant: Ieuenctid Sir Benfro

Pwy allai efelychu'r arferion hyn?

Gwasanaethau ieuenctid a darparwyr addysg, hyfforddiant a chyflogaeth yn y gymuned sy'n dymuno sefydlu cynllun profiad gwaith, gwella eu cynllun cyfredol neu ddatblygu rhwydweithiau gyda chyflogwyr lleol.

Beth yw manteision efelychu'r arferion hyn?

Mae'r cynllun yn llwybr datblygu i bobl ifanc i:

Gyflogaeth gyda'r cyflogwr sy'n rhan o'r cynllun. Yn dilyn y cynllun cyntaf gyda Sodexo, cynigodd y cwmni swyddi i 43% o bobl ifanc. Yn dilyn yr ail gynllun gyda Sodexo, cynigiwyd prentisiaeth i un person oedd â chefnidir cyfiawnder troseddol.

Coleg ac addysg bellach. Cofrestrodd 29% o bobl ifanc a ddilynodd gynllun cyntaf Sodexo mewn coleg.

Nawdd gan y cyflogwr sy'n rhan o'r cynllun. Yn dilyn y cynllun gyda Burns Pet Nutrition Ltd, cytunodd y cyflogwr i gynnig cymorth parhaus i bedwar person ifanc. Roedd hyn yn cynnwys nawdd i ymgysylltu â rhagor o addysg, hyfforddiant a chyflogaeth.

Mae pobl ifanc yn dweud bod mynychu'r cynllun yn arwain at ganlyniadau da, fel:

Darganfod bod ganddynt awydd gweithio a/neu i symud ymlaen i gyfleoedd addysg, hyfforddiant a chyflogaeth eraill.

Mwy o gymhelliant, hunan-effeithlonrwydd, hunanhyder a hunangred.

Y cynllun

Datblygwyd *Delivering the Difference for a Better Tomorrow*, cynllun profiad gwaith Ieuenctid Sir Benfro i ddarparu cyfle profiad gwaith cadarnhaol i bobl ifanc nad ydynt yn rhan o addysg, cyflogaeth na hyfforddiant: (a) na wnaeth gyfnod o brofiad gwaith ym mlynnyddoedd 10 ac 11, neu (b) a gafodd brofiad negyddol o gynllun profiad gwaith eu hysgol.

Mae'r cynllun yn cael ei arwain gan y tîm Ieuenctid pwrpasol ac mae'n targedu pobl ifanc 16-21 oed. Mae hyn yn cynnwys pobl ifanc sy'n rhan o'r system cyfiawnder troseddol yn Ieuenctid Sir Benfro neu sydd wedi bod yn rhan o'r

system honno yn y gorffennol. Mae tua dau draean o'r bobl ifanc sy'n manteisio ar y cynllun yn 16-18 oed.

Cynhaliwyd cylchoedd cyntaf y cynllun gydag un cyflogwr, naill ai Sodexo Defence Services neu Burns Pet Nutrition Ltd. O'r Gwanwyn 2016, bydd y cynllun yn cael ei gynnal gyda nifer o gyflogwyr, pob un yn cynnig dau lleoliad. Bydd yr wythnos hyfforddiant cychwynnol i'r bobl ifanc yn cael ei chynnal yn ganolog mewn partneriaeth â Gyrfa Cymru cyn i'r bobl ifanc fynd ar eu lleoliadau gyda gwahanol gyflogwyr. Mae hyn wedi cynyddu'r ystod o ddiwydiannau a lleoliadau sydd wedi'u cynnwys yn y cynllun, yn y gobaith y gellir cyfateb diddordebau person ifanc a'r ardal lle mae'n byw yn well i'r lleoliad gwaith.

Enillodd y cynllun Wobr Rhagoriaeth Gwaith Ieuenctid yng Nghymru 2015 am brosiect rhagorol sy'n cynorthwyo pobl ifanc i ddechrau mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant. Gallwch weld fideo byr am y cynllun yma:

<https://www.youtube.com/watch?v=FODNmDC-3oU&feature=youtu.be>

Cynnwys a strwythur y ddarpariaeth i fod yn addas i bobl ifanc sy'n rhan o'r system cyfiawnder troseddol: elfennau i'w hefelychu

1. Cynnig cynllun byr, yn cynnwys paratoi ar gyfer hyfforddiant gwaith gyda lleoliad dau gam i ddilyn

Cynllun tair wythnos yw *Delivering the Difference* sydd wedi'i rannu fel a ganlyn:

Wythnos 1: Hyfforddiant: Mae'r bobl ifanc yn cwblhau wythnos o hyfforddiant i'w paratoi ar gyfer y gweithle. Mae hyn yn cynnwys cymwysterau mewn Cymorth Cyntaf Brys yn y gwaith (a ddarperir gan y fyddin) a chymhwyster Lefel 2 mewn Diogelwch Bwyd ac Arlwy. Mae hefyd yn cynnwys sgiliau ar gyfer y gweithle, fel gwasanaeth cwsmeriaid ac ymdrin â gwrthdaro. Mae hefyd yn cynnwys sgiliau cyflogadwyedd, fel sgiliau ysgrifennu CV a chyfweliad. Lle bo'n bosibl, mae'r hyfforddiant yn ceisio ystyried gwahanol arddulliau dysgu y bobl ifanc sy'n cymryd rhan.

Wythnos 2: Profiad gwaith cyffredinol: Mae'r bobl ifanc yn mynychu eu lleoliad gwaith ac yn rhoi cynnig ar amryw o feysydd gwaith y cyflogwr. Nid yw hyn wedi'i gyfyngu i fusnes craidd y cyflogwr a gall gynnwys meysydd fel manwerthu, arlwy, lletygarwch, glanhau, adnoddau dynol a gweinyddu.

Wythnos 3: Profiad gwaith mwy penodol: Mae'r bobl ifanc yn mynychu eu lleoliad gwaith am wythnos arall o

brofiad dyfnach mewn maes gwaith o'u dewis. Lle bo'n bosibl, mae hyn yn seiliedig ar ddi-ddordeb y person ifanc a nodwyd yn wythnos 2.

Cynorthwyo'r bobl ifanc sy'n rhan o'r system cyfiawnder troseddol i ymgysylltu a datblygu: elfennau i'w hefelychu

1. Defnyddio proses ymgeisio fesul cam i hwyluso mynediad i'r cynllun

Cyn cael eu derbyn i'r cynllun bydd pobl ifanc yn cwblhau ffurflen gais fer. Yna, byddant yn cael cyfweiliad anffurfiol gyda gweithiwr ieuenctid i drafod y rhaglen. Yn dilyn hyn maent yn mynychu diwrnod blasu ar leoliad. Yna, bydd eu lle ar y cynllun yn cael ei gadarnhau. .

Asesu risg yn fewnol a dim ond datgelu hanes troseddu'r person ifanc os yw'n achosi risg uniongyrchol yn y gweithle

Mae asesiad risg mewnol ieuenctid Sir Benfro ar gyfer y cynllun yn cynnwys asesiad o hanes troseddu'r person ifanc. Fel unrhyw amgylchiadau neu ymddygiad heriol arall, bydd ymddygiad heriol ond yn cael ei ddatgelu i gyflogwr os yw'n achosi risg uniongyrchol yn y gweithle. Mae cyflogwyr hyd yma wedi bod yn hapus gyda'r trefniant hwn gan eu bod yn derbyn arbenigedd ieuenctid Sir Benfro mewn gweithio gyda phobl ifanc a rheoli ymddygiad a risg.

Neilltuo gweithiwr ieuenctid penodol i bob cyflogwr

Yn ystod y cynllun bydd pob cyflogwr yn cael gweithiwr ieuenctid penodol, sy'n gweithredu fel mentor i'r bobl ifanc ar leoliad ac fel pwynt cyswllt unigol i'r cyflogwr os oes ganddo bryderon neu adborth. Mae'r gweithiwr hwn yn mynychu'r lleoliad ar sail ad hoc i weld y bobl ifanc a'r cyflogwr. Mae faint o waith mae'r gweithiwr yn ei wneud yn amrywio yn dibynnu ar anghenion y bobl ifanc a'r cyflogwr, ond yn gyffredinol mae'n dueddol o fod yn fwy dwys yn wythnos 2 ac yn llai dwys wrth i'r bobl ifanc ddod yn fwy hyderus a sefydledig yn wythnos 3 y cynllun.

Hwyluso'r trefniadau teithio i leoliadau

Os oes angen bydd pobl ifanc yn cael gwarantau teithio er mwyn gallu teithio i leoliadau.

Recriwtio cyflogwyr i'r cynllun: elfennau i'w hefelychu

Erbyn diwedd 2015 roedd ieuenctid Sir Benfro wedi holi tua 35 o gyflogwyr ac roedd tua hanner y rhain wedi mynegi diddordeb yn y cynllun.

1. Pwysleisio na fydd y cynllun yn golygu unrhyw gostau i gyflogwyr a phwysleisio'r manteision iddyn nhw

Mae'r tîm ieuenctid yn targedu cyflogwyr drwy lythyr i ddechrau, sy'n pwysleisio nad oes costau i gyflogwyr wrth

gymryd rhan yn y cynllun ac y gall fod yn ddull ymarferol o gyflwyno darpar weithwyr newydd neu brentisiaid i'r gweithle.

Neilltuo amser yn gynnar i feithrin perthynas â chyflogwyr

Y cam nesaf ar ôl y llythyr cychwynnol i gyflogwyr yw galwad ffôn yna ymweld â'r cyflogwyr sy'n mynegi diddordeb yn y cynllun. Mae'r tîm yn ceisio cael cysylltiad personol, wyneb-yn-wyneb gyda'r cyflogwr yn hytrach na defnyddio cyfryngau corfforaethol lle gallai'r neges fynd ar goll. Gall hyn leihau'r siawns o gael eu dal mewn prosesau biwrocraataidd cymhleth sy'n gallu bod yn rhwystr wrth recriwtio cyflogwyr i'r cynllun.

Canolbwyntio ar gyflogwyr lleol

Mae cyflogwyr lleol a fyddai'n elwa ar lwyddiant economaidd a chymdeithasol rhanbarth yn fwy tebygol o ymuno â'r cynllun.

Canolbwyntio ar gyflogwyr sydd wedi arfer cynnig cyfleoedd i bobl ifanc

Targedodd leuenctid Sir Benfro Sodexo i ddechrau gan fod y cwmni wedi bod yn gweithio gyda phobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant mewn partneriaeth ag Ymddiriedolaeth y Tywysog. Maent hefyd wedi cysylltu â chyflogwyr sydd ar y gronfa ddata am eu bod yn cynnal cynlluniau profiad gwaith oedran ysgol.

Cynllunio'r cynllun yng nghyd-destun y farchnad lafur leol a phan fo mwy o alw

Mae leuenctid Sir Benfro'n ystyried y farchnad lafur leol wrth benderfynu pa ddiwydiannau y gellid eu cynrychioli ar y cynllun. Er enghraifft, maent wedi cysylltu â chyflogwyr drwy grŵp dan arweiniad yr awdurdod lleol sy'n cynnig cymorth busnes i gyflogwyr sy'n gweithio yn y diwydiant arlwygo a lletygarwch. Maent hefyd yn ceisio cynnal cynlluniau ar adegau o'r flwyddyn pan mae cyflogwyr yn debygol o fod angen pobl ifanc ar leoliadau (fel tymor prysur y diwydiant twristiaeth).

Cynnwys dyddiadau dros dro i gynlluniau wrth drafod â chyflogwyr

Mae leuenctid Sir Benfro'n teimlo bod cyflogwyr yn gallu ymrwymo'n fwy ystyrlon i gynllun os ydynt wedi cael gwybod dyddiadau'r cynllun ymlaen llaw. Yna, gall cyflogwyr ystyried a allant gymryd rhan yr adeg honno a chynllunio ar gyfer hynny ymlaen llaw.

4.4.4 Secondio cynghorydd Gyrfu Cymru i Dîm Troseddau leuenctid i gynyddu dwysedd ac ansawdd darpariaeth a chymorth addysg, hyfforddiant a chyflogaeth mewnol: Gwasanaeth Cyfiawnder leuenctid Ceredigion

Pwy allai efelychu'r arferion hyn?

Timau Troseddau leuenctid sy'n dymuno cynyddu dwysedd ac ansawdd darpariaeth addysg, hyfforddiant a chyflogaeth mewnol mewn ardaloedd awdurdodau lleol lle gellir nodi adnoddau i ariannu cynghorydd Gyrfu Cymru ar secondiad.

Beth yw manteision efelychu'r arferion hyn?

Mae secondio cynghorydd Gyrfu Cymru i Dîm Troseddau leuenctid yn darparu:

Cymorth addysg, hyfforddiant a chyflogaeth arbenigol i bobl ifanc 16-18 oed sy'n fwy dwys na'r gwasanaethau cyffredinol a ddarperir gan Gyrfu Cymru, ac yn gallu ategu darpariaeth staff Tîm Troseddau leuenctid.

Mynediad uniongyrchol i gronfa ddata Gyrfu Cymru, sy'n golygu bod modd rhannu gwybodaeth gyda gweithwyr y Tîm Troseddau leuenctid fel y gallant olrhain a chynllunio taith addysg, hyfforddiant a chyflogaeth person ifanc yn well.

Cyfleoedd niferus i gynghorydd Gyrfu Cymru rannu gwybodaeth yn anffurfiol â gweithwyr y Tîm Troseddau leuenctid, gan fod y staff wedi'u lleoli gyda'i gilydd.

Gall mwy o adnoddau i ddarparu darpariaeth a chymorth addysg, hyfforddiant a chyflogaeth fewnol fwy dwys gynyddu gobeithion person ifanc o ymgysylltu am gyfnod hir gyda darparwr allanol drwy:

Fwy o waith paratoi i sicrhau bod gan bobl ifanc y sgiliau a'r hyder i ymgysylltu â darpariaeth allanol.

Cymorth mwy dwys i sicrhau pontio didrfferth i ddarpariaeth allanol.

Cymorth parhaus gwell i gynnal ymgysylltiad â darpariaeth allanol.

Mae hyrwyddo ymgysylltiad parhaus â darpariaeth addysg, hyfforddiant a chyflogaeth allanol yn debygol o arwain at well canlyniadau addysg, hyfforddiant a chyflogaeth i bobl ifanc.

Y sefydliad

Mae cynghorydd gyrfaoedd o Gyrfu Cymru yn gweithio ar secondiad i Wasanaeth Cyfiawnder leuenctid Ceredigion dri diwrnod yr wythnos. Nod y cynghorydd gyrfaoedd yw symud pobl ifanc i addysg, hyfforddiant a chyflogaeth neu gynnal eu hymgysylltiad os ydynt yn manteisio ar gyfle eisoes.

Mae rheolwr achos y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid yn ymgysylltu â pherson ifanc i ddechrau. Drwy waith a thrafodaethau'r rheolwr achos â'r person ifanc mae'r rheolwr achos yn nodi anghenion addysg, hyfforddiant a chyflogaeth y person ifanc ac yn ei gyfeirio at y cynghorydd gyrfaedd.

Cynorthwyo pobl ifanc sy'n rhan o'r system cyfiawnder troseddol i ymgysylltu a datblygu: elfennau i'w hefelychu

1. Teilwra darpariaeth i fod yn addas i arddull dysgu ac anghenion a aseswyd

Mae cynghorydd Gyrfya Cymru sydd ar secondiad gyda Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid Ceredigion yn asesu arddull dysgu'r holl bobl ifanc sy'n derbyn cymorth addysg, hyfforddiant a chyflogaeth ac yn teilwra darpariaeth i fod yn addas i'w harddull dysgu a'u hanghenion. Mae llawer o'r ddarpariaeth fewnol yn seiliedig ar weithgareddau ac wedi'i chynllunio i fod yn addas i ddysgwyr cinesthetig gan mai dyma hoff arddull dysgu 76% o'r bobl ifanc sy'n rhan o'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid. Mae pobl ifanc hefyd yn cwblhau asesiad lleferydd ac iaith. Gall y rhai sy'n ei chael hi'n anodd cyfathrebu ymuno â rhaglen Talk About, sy'n cynnwys gweithgareddau grŵp i hyrwyddo sgiliau cyfathrebu a chymdeithasol.

Cynnwys y person ifanc wrth gynllunio llwybr pwrpasol drwy addysg, hyfforddiant a chyflogaeth

Mae'r cynghorydd gyrfaedd yn gweithio gyda phob person ifanc i lunio cynllun dysgu unigol, sy'n cael ei adolygu'n rheolaidd. Mae'r nodau yn y cynllun yn ymwneud â'r gwaith y gall person ifanc ei wneud yn fewnol yn y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid a darpariaeth allanol y gall fanteisio arni.

Darparu cymorth dwys i baratoi pobl ifanc i ymgysylltu â darpariaeth addysg, hyfforddiant a chyflogaeth allanol

Mae cynghorydd Gyrfya Cymru a'r person ifanc yn cyfarfod yn rheolaidd ar sail un-i-un. Maent yn cydweithio ar feysydd fel hunanymwybyddiaeth, deallusrwydd emosiynol, iaith a chyfathrebu ac ymddygiad yn y gweithle (gan ganolbwyntio ar bwysigrwydd mynychu'n rheolaidd, bod yn brydlon a dilyn gweithdrefnau'r cyflogwr). Dull allweddol a ddefnyddir gan y cynghorydd gyrfaedd gyda phobl ifanc yw cyfweiliadau ysgogiadol. Gall y rhain eu helpu i ysgogi eu hunain, cynnal hynny a'i ddatblygu a pharhau i ymgysylltu â'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid. Weithiau nid yw'r ddarpariaeth addysg, hyfforddiant a chyflogaeth allanol mae person ifanc am ei chael ar gael yn syth a gall cyswllt rheolaidd â'r cynghorydd gyrfaedd fod yn fodd o sicrhau nad yw'r person ifanc yn colli diddordeb ac yn ymddieithrio wrth aros.

Cynnig cymorth ymarferol ac emosiynol i bontio'n ddiraffferth i ddarpariaeth addysg, hyfforddiant a chyflogaeth allanol

Cyn i berson ifanc dderbyn darpariaeth allanol mae cynghorydd Gyrfu Cymru yn trafod gyda'r darparwr addysg, hyfforddiant a chyflogaeth i wella ei ddealltwriaeth o unrhyw heriau penodol mae person ifanc yn eu hwynebu a ffyrdd penodol o'u cefnogi. Gall hyn wella profiad cychwynnol y person ifanc gyda'r darparwr drwy helpu'r darparwr i addasu ei ddull i ddiwallu anghenion y person ifanc. Yn ogystal, mae'r cynghorydd yn mynd gyda'r person ifanc i gyfarfod y darparwr addysg, hyfforddiant a chyflogaeth yn aml cyn i'r cyfle ddechrau ac ar ddiwrnod cyntaf y cyfle newydd. Gall hyn leihau unrhyw bryder sydd gan berson ifanc am fynychu lle newydd a chyfarfod pobl newydd.

Darparu cymorth parhaus i gynnal ymgysylltiad â darpariaeth allanol

Tra bydd person ifanc yn ymgysylltu â darpariaeth addysg, hyfforddiant a chyflogaeth allanol mae cynghorydd Gyrfu Cymru yn aros mewn cysylltiad rheolaidd â'r person ifanc a'r darparwr i wirio datblygiad ac unrhyw anawsterau. Gall y cynghorydd ymyrryd os yw person ifanc mewn perygl o ymddieithrio. Gallai hyn gynnwys: atgyfeirio i gymorth cofleidiol i fynd i'r afael â phroblemau eraill; gweithio gyda'r person ifanc a'r darparwr i gael gwared ar unrhyw broblemau yn eu perthynas; eirioli ar ran y person ifanc; a threfnu cyfle arall os nad yw'r person ifanc yn gallu neu'n barod i ymgysylltu â'r lleoliad cychwynnol mwyach. Mewn rhai achosion, gall y cynghorydd barhau i gynnig cymorth pan fo person ifanc wedi cwblhau ei ymgysylltiad â'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid.

5. Ailsefydlu

5.1 Negeseuon allweddol

Mae ailsefydlu sy'n diwallu'r ystod lawn o anghenion sydd gan berson ifanc yn elfen allweddol o ymgysylltiad parhaus y person ifanc ag addysg, hyfforddiant a chyflogaeth, ac mewn atal aildroeddu. Mae'r prif argymhellion yn hyn o beth yn cynnwys:

Cynllunio cynnar i osgoi bylchau mewn darpariaeth gwasanaeth.

Mae hyn yn cynnwys mewngymorth yn y ddalfa gan ddarparwyr yn y gymuned.

Ceisio sicrhau dilyniant mewn darpariaeth addysg, hyfforddiant a chyflogaeth mewn lleoliadau diogel a'r gymuned i sicrhau bod pobl ifanc yn gallu cael gafael ar ddarpariaeth yn y ddau leoliad i gyfrannu at eu cynlluniau a'u nodau dysgu cyffredinol.

Cymorth cofleidiol dwys ar ôl cael eu rhyddhau o'r ddalfa i fynd i'r afael â materion ehangach a allai effeithio ar eu hymgysylltiad ag addysg, hyfforddiant a chyflogaeth ac i gefnogi'r broses o bontio i ddarpariaeth addysg, hyfforddiant a chyflogaeth yn y gymuned.

Protocolau clir ar gyfer rhannu gwybodaeth rhwng lleoliadau carchar a lleoliadau cymunedol.

Panelli a chyfarfodydd aml-asiantaeth i gynllunio darpariaeth i bobl ifanc unigol a hwyluso'r broses drosglwyddo.

Mae'r astudiaeth achos o arferion da yn canolbwyntio ar Hillside, cartref diogel i blant, sy'n dechrau cynllunio ar gyfer ailsefydlu yn gynnar ac yn parhau i gefnogi pobl ifanc ar ôl eu rhyddhau er mwyn hyrwyddo'r newid o ddarpariaeth addysg, hyfforddiant a chyflogaeth yn y ddalfa i ddarpariaeth gymunedol.

5.2 Tystiolaeth o'r llenyddiaeth sy'n bodoli eisoes

Mae canllawiau rheoli achos y Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid mewn perthynas â charcharu ac ailsefydlu yn tynnu sylw at bwysigrwydd cynllunio cynnar ar gyfer ailsefydlu, yn cynnwys cynllunio ar gyfer darpariaeth addysg, hyfforddiant a chyflogaeth. Mae'r canllawiau i'w gweld yma yn y Saesneg:

<https://www.gov.uk/government/publications/custody-and-resettlement/custody-and-resettlement-section-7-case-management-guidance>

Mae'n hynod bwysig sicrhau bod person ifanc mewn sefyllfa i ymgysylltu â darpariaeth addysg, hyfforddiant a chyflogaeth yn y gymuned cyn gynted ag y caiff ei ryddhau o'r ddalfa¹⁰. Mae tystiolaeth yn dangos bod dychwelyd i addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth yn llawn amser yn gallu atal aildroseddu ymysg pobl ifanc. Yn y cyfamser, mae person ifanc yn fwy tebygol o fod yn NEET adeg ei ryddhau o'r ddalfa os oes oedi cyn iddo gael lleoliad addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth.

Elfen bwysig o sicrhau parhad yn y gwasanaeth ar gyfer pobl ifanc, ac felly hwyluso ymgysylltiad y bobl ifanc gydag addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth yw dechrau paratoi'n gynnar ar gyfer ailsefydlu. Mae hyn yn golygu:

Protocolau clir ar gyfer rhannu gwybodaeth a gwybodaeth gywir ac amserol yn cael ei throsglwyddo rhwng lleoliadau fel bod partneriaid yn ymwybodol o gynllun dysgu unigolyn ifanc, ei gyrhaeddiad blaenorol a pha gymorth sydd ei angen arno.

Hyblygrwydd o ran sut caiff darpariaeth addysg, hyfforddiant a chyflogaeth ei chynnig, e.e. cyrsiau heb ddyddiad dechrau a gorffen pendant, fel bod pobl ifanc yn gallu manteisio ar gyfleoedd pan maent eu hangen.

Cynnwys darpariaeth addysg, hyfforddiant a chyflogaeth fel rhan o gynllun ailsefydlu cyfannol, ehangach sydd wedi'i deilwra ar gyfer y person ifanc unigol. Rhaid i'r cynllun roi sylw hefyd i faterion ymarferol sy'n effeithio ar ymgysylltiad ag addysg, hyfforddiant a chyflogaeth, fel tai, iechyd a rhwydweithiau cefnogi. Un ffordd o wneud hyn yn effeithiol yw cael gweithiwr cymorth ailsefydlu penodol i fod yn gyfrifol am arolygu cynlluniau cymorth ailsefydlu ar gyfer pobl ifanc unigol.

Cynllunio cynnar ar gyfer darpariaeth addysg, hyfforddiant a chyflogaeth wrth ryddhau o'r ddalfa. Dylai cynllunio sylweddol ddechrau cyn gynted ag y pennir dyddiad rhyddhau, er y gellid dechrau edrych ar lwybrau posibl cyn hynny.

Mae rheolaeth strategol gyffredinol o ailsefydlu yn cael dylanwad pwysig ar ganlyniadau pobl ifanc maes o law. Yn ymarferol mae hyn yn golygu:

¹⁰ Er enghraifft, yn 2015 cyhoeddodd Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi, y Comisiwn Ansawdd Gofal ac Ofsted eu *Joint thematic inspection of resettlement services to children by Youth Offending Teams and partner agencies*. Mae'n pwysleisio pwysigrwydd parhad darpariaeth rhwng lleoliadau diogel a'r gymuned a galluogi pobl ifanc i ymgysylltu ag addysg, hyfforddiant a chyflogaeth yn syth ar ôl cael eu rhyddhau o'r ddalfa. Gellir gweld y cyd- arolwg yma: https://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprobation/wp-content/uploads/sites/5/2015/03/Youth-Resettlement_report.pdf

Defnyddio paneli ailintegreiddio ac ailsefydlu aml-asiantaeth lle dylai'r staff ar y panel fod yn ddigon uchel i allu ymrwymo adnoddau i gynlluniau cymorth ailsefydlu.

Un rheolwr ag atebolrwydd gweithredol i'r bartneriaeth Tîm Troseddau leuenctid a'r panel ar gyfer cyflawni cynlluniau cymorth ailsefydlu.

Swyddogaeth adolygu sy'n canolbwyntio ar effeithiolrwydd y panel ac yn monitro a yw canlyniadau ar gyfer pobl ifanc yn cael eu gwella.

5.3 Canfyddiadau rhanddeiliaid o arferion da

Bu'r rhanddeiliaid a gafodd eu cyfweld yn trafod yr arferion da canlynol yn y maes hwn:

Mae parhad darpariaeth rhwng lleoliadau diogel a'r gymuned yn sicrhau bod pobl ifanc yn parhau i ymgysylltu ag addysg, hyfforddiant a chyflogaeth ac yn eu gwneud yn llai tebygol o beidio â bod mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth neu o ddod o dan ddylanwad negyddol eu cyfoedion. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod darpariaeth ar gael cyn gynted â'u bod yn cael eu carcharu ac adeg eu rhyddhau. Mae hefyd yn cynnwys rhannu gwybodaeth fanwl, yn amserol, er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth yn y ddau leoliad yn cyflenwi ei gilydd ac yn cyfrannu at daith ddysgu gydlynol gorau ag y bo modd.

Mae paratoi, cynllunio a chysylltu â phobl ifanc yn gynnar cyn eu rhyddhau o leoliadau diogel yn sicrhau bod y trefniadau gyda'r darparwr gwasanaeth newydd yn addas i'r bobl ifanc ac nad oes bylchau yn y ddarpariaeth. Mae hyn yn cynnwys:

Cynllun rhyddhau manwl sydd wedi ei esbonio'n glir i bob partner.

Un cynllun yn seiliedig ar gyfeiriad hysbys y bydd y person ifanc yn cael ei ryddhau iddo neu fwy nag un cynllun os nad yw'r cyfeiriad yn hysbys o flaen llaw.

Gweithwyr Tîm Troseddau leuenctid a darparwyr addysg, hyfforddiant a chyflogaeth i gynnal ymweliadau mewngymorth â'r person ifanc yn y ddalfa os oes modd.

Defnyddio cyswllt fideo fel bod y person ifanc a/neu'r Tîm Troseddau leuenctid a darparwr addysg, hyfforddiant a chyflogaeth yn gallu cyfathrebu wyneb yn wyneb pan nad yw ymweliadau personol yn bosibl (e.e. pan fo'r lleoliad diogel yn bell o gyfeiriad rhyddhau'r person ifanc).

Defnyddio Rhyddhau ar Drwydded Dros Dro neu Symudedd lle bo'n bosibl i alluogi pobl ifanc i ymweld â darpariaeth addysg, hyfforddiant a chyflogaeth.

Mae gwybodaeth am ddarpariaeth leol yn yr ardal y bydd person ifanc yn cael ei ailsefydlu ynddi yn golygu bod yr ymarferydd sy'n gweithio gyda pherson ifanc yn gallu awgrymu'r llwybr addysg, hyfforddiant a chyflogaeth mwyaf priodol.

Gellir defnyddio rhaglenni heb ddyddiad dechrau a gorffen pendant neu ddarpariaeth tymor byr i sicrhau bod person ifanc yn ymgysylltu ag addysg, hyfforddiant a chyflogaeth yn syth ar ôl cael ei ryddhau ac i lenwi bylchau wrth iddo aros am ddarpariaeth fwy hirdymor sy'n cyd-fynd â'i ddiddordebau a'i anghenion.

Gall cymorth cofleidiol dwys ac amserol helpu person ifanc i bontio'n llwyddiannus o'r ddalfa ac ymgysylltu'n effeithiol â darpariaeth addysg, hyfforddiant a chyflogaeth yn y gymuned. Lle bo'n bosibl, gallai hyn gynnwys cyfarfod â phobl ifanc yn y man rhyddhau a mynd gyda nhw i apwyntiadau.

Gall paneli llywio a chyfarfodydd amlasiantaeth hwyluso rhannu gwybodaeth am bobl ifanc sy'n pontio o un lleoliad i'r llall a gallant arwain at drosglwyddiadau prydlon a hwylus.

Mae cyfathrebu da rhwng pob partner yn hyrwyddo pob un o'r uchod ac yn osgoi oedi.

5.4 Astudiaeth achos gydag enghreifftiau o arferion da

5.4.1 Mae cynllunio'n gynnar ar gyfer ailsefydlu a darparu cymorth parhaus ar ôl eu rhyddhau i hyrwyddo pontio o ddarpariaeth addysg, hyfforddiant a chyflogaeth yn y ddalfa i ddarpariaeth yn y gymuned: cartref diogel i blant Hillside

Pwy allai efelychu'r arferion hyn?

Lleoliadau diogel sy'n ceisio gwella ymgysylltiad pobl ifanc ag addysg, hyfforddiant a chyflogaeth adeg eu rhyddhau o'r ddalfa a darparwyr addysg, hyfforddiant a chyflogaeth yn y gymuned sy'n awyddus i gydweithio â lleoliadau diogel.

Beth yw manteision efelychu'r arferion hyn?

Mae cynnwys pobl ifanc ac asiantaethau cymunedol mewn gwaith cynllunio cynnar a chyfannol ar gyfer ailsefydlu yn cynyddu'r tebygolrwydd y bydd cynllun aml-asiantaeth, cynhwysfawr ar waith adeg rhyddhau person ifanc i'w helpu i ymgysylltu ag addysg, hyfforddiant a chyflogaeth.

Mae cefnogaeth barhaus gan y lleoliad diogel adeg rhyddhau yn hwyluso'r newid i ddarpariaeth addysg, hyfforddiant a chyflogaeth yn y gymuned ac yn hyrwyddo ymyrraeth gynnar gyda phobl ifanc sydd mewn perygl o ymddieithrio.

Mae datblygu partneriaethau agos a phrotocolau gyda darparwyr addysg, hyfforddiant a chyflogaeth yn y gymuned yn cynyddu nifer y bobl ifanc sy'n cael ac yn cadw lleoliadau gyda'r darparwr ar ôl cael eu rhyddhau, ac felly'n sicrhau canlyniadau addysg, hyfforddiant a chyflogaeth cadarnhaol.

Trosolwg

Mae gan gartref diogel i blant Hillside swyddog ailsefydlu dynodedig ac mae wedi datblygu trefniadau gweithio mewn partneriaeth effeithiol gydag amrywiaeth o sefydliadau i sicrhau bod darpariaeth addysg, hyfforddiant a chyflogaeth person ifanc wedi'i threfnu cyn ei ryddhau. Mae partneriaeth Hillside gyda Grŵp Coleg Castell-nedd Port Talbot yn enghraifft o waith ailsefydlu sydd â'r nod o balmantu'r ffordd i'r coleg ar gyfer pobl ifanc 16-18 oed. Mae'r bartneriaeth hon yn cael ei datblygu ar hyn o bryd a bydd yn dilyn protocol a fydd yn seiliedig ar yr un sy'n bodoli eisoes rhwng Grŵp Coleg Castell-nedd Port Talbot a'r tîm Plant sy'n Derbyn Gofal yng Nghastell-nedd Port Talbot. Roedd y protocol yn nwylo uwch reolwyr, sy'n hanfodol i'w lwyddiant. Mae'n rheoleiddio rolau, cyfrifoldebau, arferion rhannu gwybodaeth, egwyddorion, prosesau a nodau.

Cynllunio ar gyfer ailsefydlu pan fo'r person ifanc yn y ddalffa: elfennau i'w hefelychu

1. Cynnwys y person ifanc yn y cynllunio ar gyfer ailsefydlu cyn gynted ag y bo'n cyrraedd y ddalffa

Cyn gynted ag y bo person ifanc yn dod i Hillside, mae'r swyddog ailsefydlu yn siarad â'r unigolyn am ei ddyheadau ar gyfer ailsefydlu. Mae darpariaeth addysg, hyfforddiant a chyflogaeth yn elfen allweddol o gynllun ailsefydlu cyfannol sydd hefyd yn cynnwys llety, cyllid a thrafnidiaeth. Ar yr adeg hon, mae'r swyddog ailsefydlu'n cysylltu â'r Tîm Troseddau Ieuenctid, addysg ac unrhyw adrannau perthnasol eraill yn yr awdurdod lleol i weld pa ddarpariaeth addysg, hyfforddiant a chyflogaeth oedd y person ifanc yn ei defnyddio gynt, ac a oes gan y person ifanc unrhyw anghenion addysgol arbennig neu a yw angen cymorth ychwanegol. Ar sail dyheadau ac anghenion y person ifanc, mae'r swyddog ailsefydlu yn cysylltu â Gyrfa Cymru, y gwasanaethau ieuenctid a darparwyr addysg, hyfforddiant a chyflogaeth perthnasol yn yr ardal leol y bydd y person ifanc yn byw ynddi ar ôl cael ei ryddhau o Hillside.

Defnyddio paneli ailintegreiddio ac ailsefydlu

Mae'r swyddog ailsefydlu yn meithrin cysylltiadau â phaneli ailsefydlu ac ailintegreiddio yn y gwahanol ardaloedd. Y bwriad yw gallu mynychu'r paneli hyn i drafod pobl ifanc unigol cyn iddynt gael eu rhyddhau a sicrhau bod cynllun amlasiantaeth ar waith i'w cefnogi.

Hyrwyddo cyfleoedd i'r person ifanc gyfarfod â darparwyr cyn cael ei ryddhau

Mae Hillside yn annog y darparwr addysg, hyfforddiant a chyflogaeth sydd wedi'i ddewis gan y person ifanc i ymweld ag e yn Hillside cyn ei ryddhau, i wneud yn siŵr bod y trefniadau'n addas i'r person ifanc. Mae rhai pobl ifanc hefyd yn cael blas ar waith, sy'n cael ei hyrwyddo gan y rhaglen symudol, gan roi cyfle i bobl ifanc ymweld â lleoliad o flaen llaw gyda chaniatâd eu gweithiwr cymdeithasol.

Cymorth ailsefydlu gan y lleoliad carcharol cyn rhyddhau: elfennau i'w hefelychu

1. Cadw mewn cysylltiad agos â'r person ifanc yn union ar ôl ei ryddhau

Mae'r swyddog ailsefydlu yn ymweld â'r person ifanc yn ystod yr wythnos ar ôl ei ryddhau ac yn ei ffonio'n rheolaidd yn ystod y mis cyntaf i wneud yn siŵr bod popeth yn mynd rhagddo'n hwylus.

Monitro ymgysylltiad â'r darparwr addysg, hyfforddiant a chyflogaeth yn y gymuned

Mae'r swyddog ailsefydlu yn cyfathrebu'n rheolaidd â'r darparwr addysg, hyfforddiant a chyflogaeth yn y gymuned yn yr wythnosau ar ôl rhyddhau person ifanc. Mae hyn yn ei alluogi i fonitro ymgysylltiad person ifanc a chysylltu'n uniongyrchol â'r person ifanc os ydynt mewn perygl o ymddieithrio o'r ddarpariaeth er mwyn trafod unrhyw bryderon

neu fod yn gyfryngwr. Mae hyn yn cael ei ddefnyddio tan fod person ifanc wedi meithrin perthynas â'r darparwr cymunedol ac yn teimlo'n gysurus gydag ef.

Hwyluso'r newid o leoliad diogel i goleg: elfennau i'w hefelychu

1. Pennu un pwynt cyswllt yn y coleg

Os yw person ifanc yn Hillside yn cael ei ryddhau i Gastell-nedd Port Talbot a bod ganddo ddiddordeb mewn coleg, mae aelod penodol o staff yng Ngrŵp Coleg Castell-nedd Port Talbot ar gael am sgwrs un i un gyda'r person ifanc. Mae'r aelod staff yn gweithio yn yr adran gwasanaethau cymorth i fyfyrwyr ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a phobl ifanc sy'n gadael gofal.

Cynnal digwyddiadau rheolaidd yn y lleoliad diogel i hyrwyddo'r coleg

Mae staff cymorth i fyfyrwyr o'r coleg yn ymweld â Hillside ddwywaith y flwyddyn ar gyfer diwrnodau paratoi. Eu nod yw cael pobl ifanc i ddod yn gyfarwydd â'r syniad o fynd i'r coleg a chyflwyno coleg fel amgylchedd cefnogol, lle bydd staff profiadol yn gallu deall a chefnogi eu hanghenion unigol. Mae pobl ifanc yn cael clywed am y cymorth sydd ar gael i fyfyrwyr y coleg, yn cynnwys y ffaith fod staff y coleg wedi'u hyfforddi i gynorthwyo pobl ifanc agored i niwed gyda materion fel ymddygiad troseddol, cam-drin rhywiol, problemau iechyd meddwl a bod mewn gofal.

Sicrhau bod y coleg yn mynd i'r afael â phob rhwystr ymarferol i bresenoldeb person ifanc cyn gynted â phosibl

Wrth adael Hillside, mae pobl ifanc sy'n ymrestru yn y coleg yn mynd i ddiwrnod agored, lle bydd trefniadau'n cael eu gwneud ar gyfer unrhyw gymorth ychwanegol sydd ei angen. Gwneir trefniadau fel bod yr awdurdod lleol yn talu ffi'r coleg cyn dechrau'r flwyddyn academiaidd fel nad oes rhaid i bobl ifanc feddwl am faterion ariannol pan ddylent fod yn canolbwyntio ar ymgartrefu yn y coleg. Bydd pobl ifanc sydd angen cerdyn bws yn cael un o flaen llaw hefyd. Mae hyn yn eu sicrhau bod trefniadau cludiant ar waith cyn dechrau'r cwrs ac yn eu galluogi i ymarfer y daith os hoffent wneud hynny. Mae hefyd yn cymell pobl ifanc i ymrestru gyda'r coleg drwy gynnig cludiant am ddim iddynt weld teulu a ffrindiau pan na fyddant yn y coleg. Mae'r coleg yn cynorthwyo pobl ifanc i ddefnyddio Cronfeydd Wrth Gefn Ariannol i gael yr arian sydd ei angen arnynt ar gyfer trafndiaeth, prydau ac offer.

Creu cyfleoedd i staff y ddau leoliad ddysgu ar y cyd

Mae staff y coleg yn aml yn mynychu hyfforddiant yn Hillside, ac fel arall. Mae hyn yn helpu i feithrin perthynas gref rhwng staff yn y ddau sefydliad ac mae'n cynyddu dealltwriaeth pawb o rôl, cylch gwaith ac arferion gwaith y ddau sefydliad.

Dogfennau ategol

Protocol rhwng Grŵp Coleg Castell-nedd Port Talbot, timau Plant sy'n Derbyn
Gofal Castell-nedd Port Talbot a thîm 16 + Powys

Atodiad 1

6. Datgelu ymddygiad troseddol

6.1 Negeseuon allweddol

Gall gweithdrefnau cyson, cadarn a sensitif ar gyfer datgelu troseddau/hanes o droseddu gael effaith gadarnhaol ar ymgysylltiad pobl ifanc ag addysg, hyfforddiant a chyflogaeth. Gallant sicrhau bod:

Gwybodaeth gywir a phriodol yn cael ei rhannu.

Datgelu yn cyfrannu at broses asesu a rheoli risg briodol.

Datgelu yn arwain at gynnig cymorth ychwanegol/mwy cyfannol i bobl ifanc.

Mae'r prif argymhellion yn y maes hwn yn cynnwys:

Annog pobl ifanc i ddatgelu'r wybodaeth eu hunain pan fo angen. Mae hyn yn cynnwys cynghori pobl ifanc ar y gofynion cyfreithiol i ddatgelu a sut i roi eu datgeliad yn y goleuni mwyaf cadarnhaol er mwyn lleihau ymatebion negyddol gan ddarparwyr cyfleoedd addysg, hyfforddiant a chyflogaeth.

Trefniadau rhannu gwybodaeth cyson, cadarn ac effeithiol rhwng partneriaid. Dylai'r rhain fod yn seiliedig ar ymddiriedaeth rhwng pawb dan sylw ac maent yn gweithio orau pan fydd gan bartneriaid gefndir o gydweithio i gefnogi pobl ifanc â chefnidiroedd cyfiawnder troseddol i gyflawni canlyniadau addysg, hyfforddiant a chyflogaeth llwyddiannus.

Mae'r astudiaeth achos o arferion da yn canolbwyntio ar ddatgelu priodol a ddefnyddir i reoli risg a chymell cymorth cofleidiol ychwanegol Tîm Troseddau Ieuencid Conwy a Sir Ddinbych a Grŵp Llandrillo Menai.

6.2 Tystiolaeth o'r llenyddiaeth sy'n bodoli eisoes

Paratôdd Nacro ganllawiau yn 2014 ar gyfer oedolion sy'n amlinellu'r gofynion cyfreithiol ar gyfer datgelu cofnodion troseddol wrth ymgeisio am swyddi. Mae'r canllawiau i'w gweld yma yn y Saesneg:

<https://3bx16p38bchl32s0e12di03h-wpengine.netdna-ssl.com/wp-content/uploads/2014/06/disclosing-criminal-records-a-nacro-guide.pdf>

Mae cyngor a chanllawiau i'w cael yn adnoddau ar-lein NACRO hefyd o dan *Jobs and Volunteering*. Mae'r canllawiau i'w gweld yma yn y Saesneg:

<https://www.nacro.org.uk/resettlement-advice-service/support-for-individuals/jobs-and-volunteering/>

Mae'r camau allweddol wrth wneud datgeliad i gyflogwr wedi'u crynhoi yn Ffigur 3.

Ffigur 3: Camau allweddol wrth wneud datgeliad i gyflogwr



6.3 Canfyddiadau rhanddeiliaid o arferion da

Roedd rhanddeiliaid yn ystyried y canlynol fel egwyddorion arferion da wrth ddatgelu troseddau/ymddygiad troseddol.

Strwythur cefnogol o amgylch datgelu, fel staff dynodedig sy'n gallu cynghori pobl ifanc a'u galluogi i wneud y datgeliad eu hunain.

Datgelu yn cael ei weld a'i gyfleu fel ffordd o gynorthwyo person ifanc i reoli unrhyw heriau'n ymwneud ag addysg, hyfforddiant a chyflogaeth, yn hytrach na fel rhwystr i fanteisio ar gyfleoedd.

Datgelu ar lefel briodol ar gyfer darparwyr unigol.

Datgelu i un cyswllt penodol.

Partneriaethau hirsefydledig a threfniadau rhannu gwybodaeth cadarn rhwng sefydliadau.

Mae Ffigur yn rhoi rhagor o fanylion am bob egwyddor.

Ffigur 8: Arferion da wrth ddatgelu – tystiolaeth gan randdeiliaid

Elfen	Disgrifiad
Strwythur cefnogol o amgylch datgelu	Mae pobl ifanc yn elwa ar gael strwythur cefnogol o amgylch datgelu a chael rhywun i siarad ag ef am y mater. Mae staff arbenigol yn y sefyllfa orau i gynghori pobl ifanc am y gofynion cyfreithiol i ddatgelu ar ffurflenni cais ac am sut i gyfleu eu datgeliad mewn goleuni mor gadarnhaol â phosibl.
Datgelu ar lefel briodol ar gyfer darparwyr unigol.	Mae hyn yn golygu: Osgoi gor-ddatgelu hanes troseddu nad oes rheidrwydd cyfreithiol i'w ddatgelu ac nad yw'n peri unrhyw risg o fewn y ddarpariaeth. Datgelu mewn digon o fanylder i alluogi darparwyr i gynorthwyo person ifanc i ymgysylltu ag addysg, hyfforddiant a chyflogaeth ac i ddiogelu'r person ifanc a phobl eraill sy'n astudio neu'n gweithio yn y lleoliad addysg, hyfforddiant a chyflogaeth.
Datgelu yn cael ei weld a'i gyfleu fel ffordd o gynorthwyo person ifanc i reoli unrhyw heriau'n ymwneud ag addysg, hyfforddiant a chyflogaeth, yn hytrach na fel rhwystr i fanteisio ar gyfleoedd.	Gall datgelu priodol helpu gweithwyr proffesiynol i gyfeirio pobl ifanc at gyfleoedd lle na fyddai collfarnau/rhybuddiadau yn y gorffennol yn rhwystr. Hefyd, gall datgelu ymddygiad troseddol a allai arwain at fwy o angen am gymorth i alluogi darparwyr i gynnig y cymorth ychwanegol hwn, ac felly cynyddu'r tebygolrwydd y bydd person ifanc yn ymgysylltu'n llwyddiannus ag addysg, hyfforddiant a chyflogaeth.
Datgelu i un cyswllt penodol.	Mae pobl ifanc yn teimlo sicrwydd os yw'r datgeliad yn cael ei wneud i un cyswllt penodol mewn sefydliad a bod y wybodaeth ond yn cael ei throsglwyddo i bobl eraill sydd angen y wybodaeth, er enghraifft, os yw'r drosedd neu'r amgylchiadau cysylltiedig yn golygu bod angen cynllun rheoli risg sy'n cynnwys aelodau eraill o staff.

<p>Partneriaethau hirsefydledig a threfniadau rhannu gwybodaeth cadarn rhwng sefydliadau.</p>	<p>Dylai'r rhain sicrhau bod:</p> <ul style="list-style-type: none">Gwybodaeth am droseddau yn cael ei rhannu mewn modd cyson ac amserol.Achosion o ddatgelu amhriodol neu fethiant i ddatgelu yn cael eu lleihau.Datgelu yn arwain at gamau i reoli risg ac i roi cymorth addas i bobl ifanc, yn hytrach nag ymatebion cosbol sy'n atal mynediad at, neu ymgysylltiad â, darpariaeth addysg, hyfforddiant a chyflogaeth.
---	---

6.4 Astudiaeth achos gydag enghreifftiau o arferion da

6.4.1 Datgelu priodol sy'n cael ei ddefnyddio i reoli risg a sbarduno cymorth cofleidiol ychwanegol: Tîm Troseddau leuencid Conwy a Sir Ddinbych a Grŵp Llandrillo Menai

Pwy allai efelychu'r arferion hyn?

Timau Troseddau leuencid a cholegau sydd am ddatblygu protocol ar gyfer datgelu a meithrin partneriaeth i hyrwyddo canlyniadau addysg, hyfforddiant a chyflogaeth cadarnhaol ar gyfer pobl ifanc sy'n rhan o'r system cyfiawnder troseddol.

Beth yw manteision efelychu'r arferion hyn?

Mae datblygu protocol yn pennu prosesau clir ar gyfer pobl ifanc â chofnod troseddol sy'n gwneud cais am le mewn coleg a sut bydd eu datgeliad yn cael ei drin.

Mae datgelu i'r coleg yn sbarduno cymorth ychwanegol ar gyfer person ifanc, ac mae'r coleg a'r Tîm Troseddau leuencid yn gweithio mewn partneriaeth agos. Gall hyn helpu pobl ifanc i ymgysylltu, camu ymlaen a chyflawni canlyniadau llwyddiannus yn y coleg.

Mae'r bartneriaeth agos a phrotocolau yn sicrhau prosesau atgyfeirio a derbyn hwylus, sy'n golygu nad yw person ifanc yn dod ar draws bylchau yn y ddarpariaeth addysg, hyfforddiant a chyflogaeth sydd wedi'u hachosi gan oedi neu atgyfeiriadau aflwyddiannus. Yn ei dro mae hyn yn cynorthwyo person ifanc i barhau i ymgysylltu ag addysg, hyfforddiant a chyflogaeth ac yn lleihau'r tebygolrwydd y bydd yn berson nad yw mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant wrth bontio i'r coleg.

Trosolwg

Mae Tîm Troseddau leuencid Conwy a Sir Ddinbych a Grŵp Llandrillo Menai (grŵp mawr o golegau) y gweithio mewn partneriaeth agos i gynorthwyo pobl ifanc sy'n rhan o'r system cyfiawnder troseddol i ymgysylltu yn y colegau. Yn arbennig, mae'r berthynas gref rhwng y ddau sefydliad yn sicrhau prosesau atgyfeirio a derbyn hwylus. Mae gan y sefydliadau brotocol rhannu gwybodaeth i hwyluso'r gwaith o rannu a phrosesu data personol a sensitif rhwng y ddau sefydliad. Mae'n amlinellu rhwymedigaethau'r partion mewn perthynas â diogelwch data, pa wybodaeth y dylid ei rhannu a'r camau priodol i'w cymryd ar ôl derbyn gwybodaeth. Yn ogystal, mae protocol penodol ar gyfer rheoli pobl ifanc â hanes o droseddau rhywiol mewn lleoliadau addysg. Mae Tîm Troseddau leuencid Conwy a Sir Ddinbych hefyd wedi datblygu ffurflen benodol i gynorthwyo gyda rheoli risg mewn lleoliadau addysg, hyfforddiant a chyflogaeth

ar gyfer pobl ifanc sydd wedi cwblhau eu gorchymyn statudol ond a oedd angen trefniadau rheoli risg mewn lleoliad addysg, hyfforddiant a chyflogaeth gynt.

Ymagwedd at ddatgelu: elfennau i'w hefelychu

1. Rhoi cyswllt dynodedig yn y Tîm Troseddau leuenctid i'r coleg

Prif gyswllt dynodedig y colegau yn y Tîm Troseddau leuenctid yw'r swyddog addysg, hyfforddiant a chyflogaeth. Nid yw rheolwyr achos y Tîm yn cael cyswllt gyda'r colegau. Mae gan Dîm Troseddau leuenctid Conwy a Sir Ddinbych gynghorwr gyrfaoedd ar secondiad yn y gwasanaeth hefyd ac mae'n rhoi cyngor a chymorth arbenigol i bobl ifanc 16-18 oed ac yn gallu bod yn gyswllt ar gyfer colegau yn achos pobl ifanc nad ydynt yn y categorïau risg 'uchel' neu 'uchel iawn'.

Asesu teilyngdod academiaidd y cais i'r coleg yn gyntaf

Pan mae pobl ifanc yn gwneud cais i'r coleg gyda chymorth y Tîm Troseddau leuenctid, mae Grŵp Llandrillo Menai yn asesu teilyngdod academiaidd eu cais yn y lle cyntaf. Dim ond os caiff y cais ei dderbyn ar sail academiaidd y gwneir datgeliad. Mae'r Tîm Troseddau leuenctid wedi datblygu enw da gyda'r colegau am wneud yn siŵr bod ceisiadau pobl ifanc yn briodol yn y cychwyn cyntaf a bod lefel uchel o ymddiriedaeth gan y naill barti at y llall. Felly anaml iawn na fydd person ifanc sy'n cael cymorth y Tîm Troseddau leuenctid yn cael lle mewn coleg.

Sicrhau bod lefel y datgeliad yn cael ei bennu gan asesiad risg y Tîm Troseddau leuenctid

Pan fydd person ifanc yn cael ei asesu fel unigolyn risg 'uchel' neu 'uchel iawn' gan y Tîm Troseddau leuenctid, mae swyddog addysg, hyfforddiant a chyflogaeth y Tîm Troseddau leuenctid yn gwneud datgeliad llawn o'r euogfarnau sydd wedi a heb eu disbyddu ac yn paratoi cynllun rheoli risg ar gyfer y lleoliad addysg. Os yw'r risg yn newid dros amser, mae'r Tîm Troseddau leuenctid yn gyfrifol am rannu'r wybodaeth hon gyda'r coleg a'i helpu i reoli'r risg.

Gwneud y datgeliad i un aelod staff dynodedig yn y coleg

Dim ond i berson dynodedig yn y coleg (uwch swyddog diogelu) y gwneir y datgeliad. Gall y datgeliad gael ei rannu gyda staff eraill y coleg os oes angen gwneud hynny er mwyn rheoli unrhyw risg ond rhaid cael caniatâd y Tîm Troseddau leuenctid yn gyntaf.

Galluogi pobl ifanc i gymryd rhan yn y broses ddatgelu

Mae pobl ifanc yn cael cyfle i ddatgelu eu troseddau ar y cyd â swyddog addysg, hyfforddiant a chyflogaeth y Tîm Troseddau leuenctid. Diben hyn yw eu hannog i fod yn hyderus ac yn wybodus am y gofynion cyfreithiol sy'n gysylltiedig â datgelu a chyfrinachedd. Yn arbennig, mae'n bwysig bod y bobl ifanc yn deall pryd mae'n briodol gwneud datgeliad, yn enwedig mewn amgylchedd coleg. Gall pobl ifanc gysylltu â'r Tîm Troseddau leuenctid ar unrhyw adeg os oes ganddynt unrhyw gwestiynau am ddatgelu. Mae hyn yn cynnwys gofyn am gyngor pan nad ydynt

mewn cysylltiad â'r Tîm Troseddau Ieuencid mwyach.

Sicrhau bod y datgeliad yn cael ei ddefnyddio i sbarduno trefniadau rheoli risg a chymorth ychwanegol yn unig

Mae Grŵp Llandrillo Menai ond yn defnyddio gwybodaeth am droseddau a ddatgelir i gynorthwyo'r dysgwyr sydd wedi gwneud y datgeliad ac i sicrhau diogelwch dysgwyr eraill a staff. Mae'r protocol rhwng y Tîm Troseddau Ieuencid a Grŵp Llandrillo Menai yn sôn am ddatgeliadau heb ragfarn ac mae hyn yn sicrhau nad yw'r cais yn cael ei wrthod ar sail y datgeliad yn unig. Mae cael cefndir cyfiawnder troseddol yn sbarduno cymorth bugeiliol ychwanegol ar gyfer pobl ifanc sy'n mynd i'r coleg.

Galluogi pobl ifanc â chefnidiroedd cyfiawnder troseddol i ymgysylltu â cholegau: elfennau i'w hefelychu

1. Defnyddio adnoddau'r Tîm Troseddau Ieuencid i helpu'r person ifanc gyda'r broses bontio i'r coleg

Mae'r Tîm Troseddau Ieuencid yn darparu cymorth penodol i annog pobl ifanc 16-18 oed i ymgysylltu yn y coleg. Mae hyn yn cynnwys:

Eu helpu i baratoi ar gyfer cyfweiliad.

Trafod y broses o setlo yn y coleg.

Eu helpu gyda chludiant.

Mynd gyda nhw ar eu diwrnod(au) cyntaf yn y coleg.

Sicrhau bod datgeliad yn sbarduno cymorth bugeiliol ychwanegol yn y coleg os oes ei angen

Mae gan y coleg staff i gefnogi pob dysgwyr, fel y tîm cyllid myfyrwyr a'r tîm lles. Mae'r timau hyn yn cynnig cymorth pwrpasol i bobl ifanc a allai fod yn fwy agored i niwed, fel y rheini â hanes o droseddu. Mae rheolwr cymorth dysgu yn cynnal asesiadau risg ar gyfer pobl ifanc o'r fath. Mae pobl ifanc agored i niwed yn cael tiwtor personol a fydd yn eu cynorthwyo gyda'u lles a mentor, os yw eu hamgylchiadau personol yn golygu y byddai hyn o fudd iddynt. Mae gan y mentoriaid coleg sianel gyfathrebu agored gyda'r Tîm Troseddau Ieuencid a chysylltiadau allweddol ym mhob sefydliad sy'n gweithio gyda pherson ifanc. Mae hyn yn golygu eu bod yn gallu gweithredu ar unwaith os oes ganddynt unrhyw bryderon, er enghraifft os yw presenoldeb person ifanc yn anwadal neu'n lleihau.

Darparu cymorth ychwanegol gan y Tîm Troseddau Ieuencid ar gyfer pobl ifanc 'risg uchel'

Mae'r Tîm Troseddau Ieuencid yn cynnig arbenigedd ychwanegol i gynorthwyo'r coleg i weithio gyda phobl ifanc "risg uchel" drwy reoli risg mewn modd deinamig a hyblygrwydd i addasu'r trefniadau rheoli risg a chymorth i ateb anghenion person ifanc wrth iddynt newid. Mae'n cynnig cymorth un-i-un ychwanegol yn uniongyrchol i'r bobl ifanc hyn hefyd.

Dogfennau ategol	
Protocol ar gyfer rhannu gwybodaeth rhwng Tîm Troseddau Ieuentid Conwy a Sir Ddinbych a Grŵp Llandrillo Menai	Atodiad 2
Trefniadau gweithio Tîm Troseddau Ieuentid Conwy a Sir Ddinbych ar gyfer rheoli pobl ifanc â throseddau rhywiol mewn lleoliadau addysg	Atodiad 3
Dogfen cynorthwyo rheoli risg ar gyfer lleoliadau addysg, hyfforddiant a chyflogaeth ar gyfer pobl ifanc sydd wedi cwblhau eu Gorchymyn statudol gyda'r Tîm Troseddau Ieuentid	Atodiad 4

7. Gweithio mewn partneriaeth a rhannu gwybodaeth

7.1 Negeseuon allweddol

Mae gweithio mewn partneriaeth a rhannu gwybodaeth yn effeithiol yn hollbwysig er mwyn sicrhau:

Pontio didrafferth rhwng gwasanaethau.

Teilwra gwasanaethau'n briodol i anghenion person ifanc.

Mae'r prif argymhellion yn y maes hwn yn cynnwys:

Cyfathrebu rheolaidd, cyson a thryloyw.

Protocolau rhannu gwybodaeth cadarn.

Panelli aml-asiantaeth gyda rhanddeiliaid allweddol.

Secondiadau neu gyd-leoli gweithwyr o sefydliadau partner allweddol sy'n rhan o'r gwaith o gael pobl ifanc sy'n rhan o'r system cyfiawnder troseddol i ymgysylltu ag addysg, hyfforddiant a chyflogaeth.

Meithrin perthynas â phartneriaid newydd sy'n gallu dod ag adnoddau ac arbenigedd i greu darpariaeth well.

Mae astudiaethau achos o arferion da o ran gweithio mewn partneriaeth a rhannu gwybodaeth yn canolbwyntio ar y dulliau, y sefydliadau a'r ardaloedd canlynol:

Swyddog addysg y gwasanaeth troseddau ieuenctid yn darparu darpariaeth a chymorth mewn canolfan addysg, hyfforddiant a chyflogaeth: Partneriaeth rhwng Gwasanaethau Troseddau Ieuenctid Itec Llwynypia a Chwm Taf.

Darparwyr addysg, hyfforddiant a chyflogaeth yn cydweithio i gefnogi ymgysylltu cynnar a phontio i ddarpariaeth fwy strwythuredig: Partneriaeth rhwng Itec Llwynypia a Llamau.

Uno gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid gyda gwasanaethau ieuenctid i gynyddu integreiddiad gwasanaethau o dan agenda NEET a chyn NEET: Ieuenctid Sir Benfro.

Tîm allgymorth ieuencid yn cefnogi ymyrryd ac ymgysylltu cynnar mewn lleoliadau addysg, hyfforddiant a chyflogaeth: Ieuencid Sir Benfro.

Defnyddio grŵp ymarferwyr NEET aml-asiantaeth i nodi a chefnogi pobl ifanc yn well: Ceredigion.

7.2 Tystiolaeth o'r llenyddiaeth sy'n bodoli eisoes

Roedd yr adolygiad o lenyddiaeth yn nodi tair prif egwyddor ar gyfer gweithio mewn partneriaeth a rhannu gwybodaeth yn effeithiol er mwyn cynorthwyo pobl ifanc sy'n rhan o'r system cyfiawnder troseddol. Dyma'r egwyddorion:

Sicrhau bod y sefydliadau priodol yn cyfrannu.

Cynnwys pob sefydliad perthnasol yn gynnar.

Paneli aml-asiantaeth.

Mae Ffigur 4 yn rhoi rhagor o fanylion am bob egwyddor.

Ffigur 4: Arferion da gweithio mewn partneriaeth/rhannu gwybodaeth – tystiolaeth o'r adolygiad o lenyddiaeth

Elfen	Disgrifiad
Sicrhau bod y sefydliadau priodol yn cyfrannu	Mae'r math o sefydliadau sy'n cyfrannu at bartneriaethau yn dibynnu ar yr anghenion a'r cyd-destun lleol, ac ar amgylchiadau'r person ifanc. Mae partneriaid annatod fel rheol yn cynnwys: Timau Troseddau Ieuencid. Addysg. Darparwyr hyfforddiant. Darparwyr dysgu seiliedig ar waith. Gwasanaethau plant. Gwasanaethau ieuencid. Iechyd. Tai. Asiantaethau'r sector gwirfoddol.
Cynnwys pob sefydliad perthnasol yn gynnar.	Gall cynnwys pob partner yn gynnar yn y gwaith o ddatblygu pecynnau cymorth ar gyfer pobl ifanc wella canlyniadau pobl ifanc. Mae angen digon o amser ar bob partner i: Aseu a deall amgylchiadau, anghenion a diddordebau penodol person ifanc. Cynllunio darpariaeth addysg, hyfforddiant a chyflogaeth

Efen	Disgrifiad
	<p>a chymorth cofleidiol priodol.</p> <p>Sicrhau bod lleoliadau a gwasanaethau ar gael cyn gynted â phosibl, a'u bod yn cyd-daro â dyddiadau allweddol fel dyddiadau rhyddhau o'r ddalfa neu ddyddiadau gorffen darpariaeth addysg, hyfforddiant a chyflogaeth gyfredol (e.e. ar ddiwedd gyrfa ysgol neu leoliad gwaith).</p>
Paneli aml-asiantaeth	<p>Paneli aml-asiantaeth sy'n cynnwys cynrychiolwyr o bob partner:</p> <p>Hwyluso cynlluniau a phecynnau cymorth aml-asiantaeth, cyfannol, cydlynol ar gyfer pobl ifanc.</p> <p>Cynnig fforwm ar gyfer nodi'r llwybrau a chymorth mwyaf priodol fesul achos, gan elwa ar arbenigedd pob partner.</p> <p>Galluogi rolau a thasgau i gael eu dynodi i bartneriaid unigol, sydd wedyn yn gallu cael eu dwyn i gyfrif pan fydd yr achos yn cael ei adolygu mewn cyfarfodydd dilynol.</p> <p>Hyrwyddo rhannu gwybodaeth am gynnydd a/neu anawsterau pobl ifanc.</p> <p>Cyfrannu at ymyrryd yn gynt, oherwydd gall achosion gael eu cyflwyno cyn i berson ifanc fod yn NEET neu droseddau a gall cymorth priodol gael ei roi ar waith i atal hyn.</p>

7.3 Canfyddiadau rhanddeiliaid o arferion da

Pwysleisiodd rhanddeiliaid mai pobl ifanc eu hunain yw'r partneriaid allweddol y dylai gweithwyr proffesiynol fod yn gweithio gyda nhw i gynllunio a chyflawni ymgysylltiad llwyddiannus ag addysg, hyfforddiant a chyflogaeth. Yn ogystal, amlinellodd rhanddeiliaid yr egwyddorion canlynol ar gyfer arferion da o ran rhannu gwybodaeth a gweithio mewn partneriaeth:

Cyfathrebu rheolaidd, cyson a thryloyw.

Sefydlu protocolau rhannu gwybodaeth (fel cytundebau lefel gwasanaeth a phrotocolau rhannu gwybodaeth Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (WASPI)).

Paneli aml-asiantaeth sy'n cynnwys y cynrychiolwyr priodol.

Datblygu perthnasoedd newydd a chroesawu partneriaid newydd.

Cyd-leoli ymarferwyr o wahanol sefydliadau (e.e. drwy secondiadau).
Yn arbennig, gwelwyd bod secondio swyddogion Gyrfya Cymru i Dimau Troseddau leuencid yn gwella arferion gwaith a chymorth ar gyfer pobl ifanc.

Perthnasoedd hirsefydledig rhwng partneriaid.

Mae Ffigur 5 yn darparu rhagor o fanylion am bob egwyddor.

Ffigur 5: Arferion da gweithio mewn partneriaeth/rhannu gwybodaeth – tystiolaeth gan randdeiliaid

Elfen	Disgrifiad
Cyfathrebu rheolaidd, cyson a thryloyw.	Gall hyn alluogi trefniadau gweithio mewn partneriaeth da oherwydd mae'n hyrwyddo: Rhannu gwybodaeth briodol am y person ifanc. Cydgysylltu'n effeithiol y gweithgareddau y mae'r person ifanc yn ymwneud â nhw. Pontio hwylus rhwng gwasanaethau gwahanol. Ymwybyddiaeth o rolau a chyfrifoldebau pob partner.
Sefydlu protocolau rhannu gwybodaeth (fel cytundebau lefel gwasanaeth a phrotocolau rhannu gwybodaeth Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (WASPI)).	Mae'r rhain yn helpu i sicrhau: Bod datgelu gwybodaeth yn dilyn canllawiau cyson a chytûn. Bod gwybodaeth yn cael ei rhannu'n ddiogel ac yn brydlon. Nad yw atgyfeiriadau a phenderfyniadau yn cael eu gohirio.
Paneli aml-asiantaeth sy'n cynnwys y cynrychiolwyr priodol.	Mae paneli aml-asiantaeth yn fwyaf effeithiol pan maent yn cynnwys rhanddeiliaid sydd â digon o awdurdod i ymrwymo'u sefydliadau i gamau gweithredu a digon o gysylltiad gweithredol i sicrhau bod y penderfyniadau'n seiliedig ar yr hyn sy'n ymarferol ac yn ddichonadwy. Mae enghreifftiau o gyfarfodydd aml-asiantaeth effeithiol y cyfeiriwyd atynt gan y rhanddeiliaid a gafodd eu cyfweld yn cynnwys: Paneli NEET/cyn NEET cyn 16 ac ôl 16. Paneli Mynediad Teg.

Elfen	Disgrifiad
Datblygu perthnasoedd newydd a chrosawu partneriaid newydd.	<p data-bbox="874 376 1369 409">Paneli ailintegreiddio ac ailsefydlu.</p> <p data-bbox="826 439 1474 909">Gall partneriaid newydd ddarparu adnoddau ac arbenigedd i wella'r arlwy addysg, hyfforddiant a chyflogaeth ar gyfer pobl ifanc sy'n rhan o'r system cyfiawnder troseddol. Mae'n bosibl nad oes defnydd digonol wedi'i wneud o bartneriaid yn y trydydd sector yn y gorffennol ond, yn aml, mae ganddynt wybodaeth a sgiliau arbenigol, yn ogystal â chlymau cryf gyda chymunedau lleol. Felly, mae'n bosibl y gallant gyfrannu at fodolau cymorth arloesol a/neu at bartneriaethau gan elwa ar nifer o ffynonellau cyllid posibl, yn cynnwys mentrau cymdeithasol.</p>
Cyd-leoli ymarferwyr o wahanol sefydliadau (e.e. drwy secondiadau). Yn arbennig, gwelwyd bod secondio swyddogion Gyrfu Cymru i Dimau Troseddau leuenctid yn gwella arferion gwaith a chymorth ar gyfer pobl ifanc.	<p data-bbox="826 943 1490 1189">Gall hyn hyrwyddo gwaith meithrin partneriaethau a gwaith aml-asiantaeth. Mae'r sianel gyfathrebu agored rhwng staff gwahanol sefydliadau sydd wedi'u cyd-leoli yn hwyluso rhannu gwybodaeth, atgyfeiriadau hwylus a theilwra gwasanaethau'n well i ateb anghenion pobl ifanc.</p> <p data-bbox="826 1234 1490 1783">Mae secondio swyddogion Gyrfu Cymru i Dimau Troseddau leuenctid yn cael ei ystyried yn arbennig o fuddiol oherwydd mae'n hwyluso gwell gwasanaeth Gyrfu Cymru ar gyfer pobl ifanc sy'n ymwneud â Thimau Troseddau leuenctid. Mae hyn yn cynnwys cysylltiad mwy rheolaidd a chymorth manwl; mentora a mynd gyda phobl ifanc at ddarparwyr; eiriolaeth; a dealltwriaeth fwy cyfannol o anghenion person ifanc yn sgil bod yn rhan o'r Tîm Troseddau leuenctid. Mae trefniadau cyllido'r swyddi ar secondiad hyn yn amrywio o un awdurdod lleol i'r llall – weithiau daw'r cyllid yn uniongyrchol o'r Tîm Troseddau leuenctid ac weithiau o ffynonellau eraill.</p>
Perthnasoedd hirsefydledig rhwng partneriaid.	<p data-bbox="826 1805 1474 1984">Mae'r rhain yn arbennig o effeithiol ac yn aml yn arwain at ganlyniadau gwell ar gyfer pobl ifanc, oherwydd bod gan bartneriaid ddealltwriaeth fwy cynhwysfawr o rolau ei gilydd a'u ffyrdd o weithio, ymddiriedaeth a</p>

Efen	Disgrifiad
	hyder yn ei gilydd. Hefyd, yn aml, mae ganddynt brofiad o weithio gyda'i gilydd i gynorthwyo pobl ifanc i gyflawni canlyniadau cadarnhaol, ac felly maent yn fwy ymroddedig i'r bartneriaeth.

7.4 Astudiaethau achos gydag enghreifftiau o arferion da

7.4.1 Swyddog addysg Gwasanaeth Troseddau leuenctid yn darparu darpariaeth a chymorth mewn canolfan addysg, hyfforddiant a chyflogaeth: Partneriaeth rhwng Gwasanaethau Troseddau leuenctid Itec Llwynypia a Chwm Taf

Pwy allai efelychu'r arferion hyn?

Timau Troseddau leuenctid a darparwyr addysg, hyfforddiant a chyflogaeth sydd am adeiladu partneriaeth i hyrwyddo canlyniadau addysg, hyfforddiant a chyflogaeth cadarnhaol ar gyfer pobl ifanc sy'n rhan o'r system cyfiawnder troseddol.

Beth yw manteision efelychu'r arferion hyn?

Mae darparwyr addysg, hyfforddiant a chyflogaeth unigol a Thimau Troseddau leuenctid yn gweithio mewn partneriaeth yn effeithiol yn hyrwyddo'r canlynol:

Ymgorffori pynciau'n ymwneud â throsteddu yng nghwricwlwm addysg, hyfforddiant a chyflogaeth darparwyr.

Nodi pobl ifanc sydd mewn perygl o drosteddu a/neu fod yn NEET yn gynnar ac ymyriadau i atal hyn.

Cymorth gwell ar gyfer pobl ifanc sy'n rhan o'r system cyfiawnder troseddol er mwyn iddynt ymgysylltu a chamu ymlaen gyda'r darparwr addysg, hyfforddiant a chyflogaeth.

Trosolwg

Mae Itec yn Llwynypia wedi'i leoli mewn rhan wledig o Riondda Cynon Taf. Mae gan y ganolfan ychydig dros 100 o ddysgwyr sy'n cymryd rhan mewn hyfforddeiaethau Ymgysylltu a Lefel 1. Mae'r rhan fwyaf o'r dysgwyr rhwng 16 a 18 oed. Nid yw'n anghyffredin i bobl ifanc ar yr hyfforddeiaethau fod wedi trosteddu neu fod mewn perygl o drosteddu.

Mae gan Wasanaeth Troseddau leuenctid Cwm Taf swyddog addysg arbenigol sy'n gweithio'n agos gydag Itec (a darparwyr hyfforddiant eraill a Gyrfa Cymru) i gynorthwyo pobl ifanc i gael mynediad at leoliadau addysg, hyfforddiant a chyflogaeth a dal ati gyda'r lleoliadau.

Cynorthwyo pobl ifanc sy'n rhan o'r system cyfiawnder troseddol i ymgysylltu a chamu ymlaen: elfennau i'w hefelychu

1. Darparu gweithiwr dynodedig yn y Tîm Troseddau leuenctid a sicrhau bod gan y Tîm Troseddau leuenctid

bresenoldeb amlwg yn y lleoliad addysg, hyfforddiant a chyflogaeth

Mae staff Itec yn cysylltu â swyddog addysg y Gwasanaeth Troseddau leuenctid os ydynt yn poeni am unrhyw berson ifanc sy'n mynychu'r ganolfan. Mae gan y swyddog addysg yn ymweld â'r ganolfan yn rheolaidd felly mae'n gyfarwydd i'r staff a'r bobl ifanc. Mae staff y Gwasanaeth Troseddau leuenctid hefyd yn mynychu'r ganolfan i gynnal grwpiau, hwyluso gweithdai a mynychu cyfarfodydd gyda phobl ifanc.

2. Addysgu staff yn y darparwr addysg, hyfforddiant a chyflogaeth i adnabod pobol ifanc sydd mewn perygl o droseddu

Bydd staff Itec yn cysylltu â swyddog addysg y Gwasanaeth Troseddau leuenctid os ydynt yn adnabod pobl ifanc nad ydynt yn hysbys i'r gwasanaeth a allai fod mewn perygl o droseddu. Bydd swyddog addysg y Gwasanaeth Troseddau leuenctid yn mynd i'r ganolfan i siarad â phobl ifanc am eu hymddygiad, grwpiau cyfoedion a chanlyniadau posibl troseddu.

Ymgorffori pynciau'n ymwneud â throseddu yn y ddarpariaeth addysg, hyfforddiant a chyflogaeth ar gyfer pob person ifanc

Mae staff o'r Gwasanaeth Troseddau leuenctid yn mynychu'r ganolfan i hwyluso gweithdai am bynciau'n ymwneud â throseddu, fel ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae'r holl bobl ifanc ar y rhaglen hyfforddeiaethau yn cymryd rhan yn y gweithdai, nid dim ond dysgwyr sydd â hanes o ymwneud â chyfiawnder troseddol. Mae hyn yn osgoi sefyllfa lle mae pobl ifanc â chefnidir cyfiawnder troseddol yn cael eu difrio neu eu gwthio i'r ymylon, ac mae'n hyrwyddo hinsawdd lle mae modd sôn am faterion yn ymwneud â throseddu. Mae'n fath o ymyrraeth gynnar hefyd drwy addysgu pobl ifanc am y risgiau sy'n gysylltiedig â throseddu. Caiff y gweithdai gan staff y Gwasanaeth Troseddau leuenctid eu cyflenwi gan ddarpariaeth fewnol a gweithdai gan ddarparwyr hyfforddiant eraill, sy'n sicrhau bod materion cyfiawnder troseddol yn rhan annatod o'r cwricwlwm ymgysylltu. Er enghraifft, mae'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn ymweld â'r ganolfan unwaith y tymor i weithio gyda phobl ifanc ynglŷn â throseddu yn y gymuned.

Defnyddio adnoddau'r Tîm Troseddau leuenctid i gynorthwyo'r pontio i'r darparwr addysg, hyfforddiant a chyflogaeth a chynnig cymorth ychwanegol i bobl ifanc â chefnidiroedd cyfiawnder troseddol pan maent yn ymgysylltu yn y darparwr addysg, hyfforddiant a chyflogaeth

Yn y gorffennol mae'r Gwasanaeth Troseddau leuenctid wedi defnyddio'r ganolfan i gynnal grŵp cyn ymgysylltu ar gyfer pobl ifanc â chefnidiroedd cyfiawnder troseddol. Mae gan hyn y fantais o gyflwyno'r bobl ifanc i'r ganolfan, a rhoi'r cyfle iddynt fod yn hyderus ac yn gysurus yno, gan felly gynyddu'r tebygolrwydd y byddant yn symud ymlaen i wneud hyfforddeiaeth gyda'r ganolfan.

Mae'r Gwasanaeth Troseddau leuenctid hefyd yn cynorthwyo pobl ifanc sy'n hysbys i'r Tîm Troseddau leuenctid gydol eu hamser gyda darparwr addysg, hyfforddiant a chyflogaeth, yn cynnwys yn ystod eu hymgysylltiad yn Itec. Mae hyn

yn cynnwys cymorth gydag addysg, hyfforddiant a chyflogaeth ei hun, neu gymorth i fynd i'r afael â materion eraill sy'n effeithio ar allu person i ymgysylltu ag addysg, hyfforddiant a chyflogaeth. Gallai gynnwys trefnu cynadleddau achos gyda phartion perthnasol.

Cynorthwyo pobl ifanc i ganfod beth sy'n eu helpu i ymgysylltu ag addysg, hyfforddiant a chyflogaeth ac esbonio hyn i ddarparwyr

Mae'r Gwasanaethau Troseddau Ieuencid wedi datblygu ffurflen bwrpasol dan arweiniad dysgwyr i'w defnyddio gyda phob person ifanc sy'n gwneud hyfforddeiaeth. Bydd staff yn cynorthwyo'r person ifanc i gwblhau ffurflen ar 'broffil addysg, hyfforddiant a chyflogaeth' person ifanc, sy'n cynnwys gwybodaeth am yr hyn sy'n eu helpu ac yn eu llesteirio i ymgysylltu ag addysg, hyfforddiant a chyflogaeth. Gellir dechrau llenwi'r ffurflen yn y ddalfa neu'n ystod yr wythnos ymsefydlu gyda darparwr hyfforddiant. Mae'n ddogfen waith y gellir ei diwygio wrth i'r person ifanc symud drwy ei hyfforddeiaeth a dylai ddilyn y person ifanc os yw'n symud rhwng darparwyr.

Dogfennau ategol

Ffurflen bwrpasol dan arweiniad dysgwyr i'w chadw gyda'r person ifanc gydol ei daith drwy hyfforddeiaeth

Atodiad 5

7.4.2 Darparwyr addysg, hyfforddiant a chyflogaeth yn cydweithio i gefnogi ymgysylltu cynnar a phontio i ddarpariaeth fwy strwythuredig: Partneriaeth rhwng Itec Llwynypia a Llamau.

Pwy allai efelychu'r arferion hyn?

Darparwyr addysg, hyfforddiant a chyflogaeth sydd am gydweithio i ddatblygu darpariaeth addysg, hyfforddiant a chyflogaeth er mwyn cefnogi pobl ifanc sy'n rhan o'r system cyfiawnder troseddol yn well i ymgysylltu a chamu ymlaen.

Beth yw manteision efelychu'r arferion hyn?

Gall gwahanol ddarparwyr yn cyfuno'u hadnoddau a'u harbenigedd alluogi darparwyr i ymgysylltu'n fwy effeithiol â phobl ifanc sy'n rhan o'r system cyfiawnder troseddol a'u helpu i symud ymlaen i gyflawni canlyniadau addysg, hyfforddiant a chyflogaeth cadarnhaol.

Trosolwg

Mae Itec Llwynypia a Llamau yn treialu partneriaeth o'r enw'r prosiect *Ready to Engage* ar hyn o bryd. Yn y prosiect mae Llamau yn rhoi darpariaeth i ddysgwyr sydd wedi cofrestru ar hyfforddeiaethau Itec. Bydd darpariaeth Llamau ar lefel ymgysylltu, ond bydd ar lefel is ac yn fwy hyblyg na'r ddarpariaeth sy'n cael ei chyflwyno'n uniongyrchol gan Itec.

Cynorthwyo pobl ifanc sy'n rhan o'r system cyfiawnder troseddol i ymgysylltu a chamu ymlaen: elfennau i'w hefelychu

- 1. Ymgysylltiad cynnar: defnyddio darparwr sy'n cynnig mwy o hyblygrwydd a chymorth mwy dwys**
e Itec angen cwblhau'r 21 awr o ymgysylltiad sy'n ofynnol ganddynt bob wythnos dros dridiau fel rheol, ond mae'r rheini sy'n cwblhau darpariaeth Llamau yn gallu gwneud hyn dros bum niwrnod. Caiff darpariaeth Llamau ei chyflwyno mewn grwpiau llai ac mae wedi'i theilwra mwy i'r person ifanc unigol. Mae gan staff Llamau fwy o allu i gynorthwyo pobl ifanc sydd â phroblemau a allai effeithio ar eu hymgysylltiad a'u gallu i gael gwaith, fel dod o hyd i'w rhif Yswiriant Gwladol.
- 2. Hyrwyddo cynnydd o fewn addysg, hyfforddiant a chyflogaeth: cadw mewn cysylltiad â'r person ifanc a monitro ei barodrwydd i drosglwyddo**
Bydd pobl ifanc sy'n ymwneud â darpariaeth Llamau yn mynychu "diwrnodau cadw mewn cysylltiad" yn y ganolfan Itec

i gynnal eu cysylltiad yno. Maent yn gweithio'u ffordd drwy restr wirio i'w galluogi i drosglwyddo i'r ganolfan a phrif ddarpariaeth hyfforddeiaeth Itec. Gallant ddechrau'r brif ddarpariaeth ar lefel ymgysylltu neu fe allant ddechrau'n syth ar lefel 1, yn dibynnu ar eu cyrhaeddiad a'u hanghenion unigol.

7.4.3 Uno gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid gyda gwasanaethau ieuenctid i gynyddu integreiddiad gwasanaethau o dan agenda NEET a chyn NEET: Ieuenctid Sir Benfro.

Pwy allai efelychu'r arferion hyn?

Gwasanaethau ieuenctid a Thimau Troseddau Ieuenctid sy'n gweithredu yn yr un ardal awdurdod lleol.

Trosolwg

Yn Sir Benfro, unwyd gwasanaethau cyfiawnder troseddol gyda gwasanaethau ieuenctid prif ffrwd. Mae'r gwasanaeth newydd, Ieuenctid Sir Benfro, yn cyfuno tri thîm gweithredol: y tîm cyfiawnder ieuenctid; y tîm ieuenctid wedi'i dargedu a'r tîm ieuenctid cymunedol.

Beth yw manteision efelychu'r arferion hyn?

Mae'r uno wedi arwain at integreiddio gwasanaethau'n agosach ar gyfer pob person ifanc, yn cynnwys y rheini sy'n rhan o'r system cyfiawnder troseddol. Mae atgyfeiriadau rhwng gwahanol elfennau o'r gwasanaethau, yn cynnwys i a chan y tîm cyfiawnder ieuenctid, yn fwy hwylus gan mai atgyfeiriadau mewnol ydynt bellach. Mae'r uno wedi lleihau dyblygu ar draws gwasanaethau a phartneriaethau, gan arwain at fwy o effeithlonrwydd. Mae'r gwasanaeth integredig yn hyrwyddo cydnabyddiaeth fwy systematig o'r berthynas rhwng ymddygiad troseddol ac ymddieithrio o addysg, hyfforddiant a chyflogaeth (oherwydd mae anghenion addysg, hyfforddiant a chyflogaeth pobl ifanc sydd wedi troseddu neu sydd mewn perygl o droseddu yn cael sylw'n bennaf o dan yr agenda NEET a chyn-NEET bellach).

Mae'r gwasanaeth integredig yn hwyluso ymyrraeth gynharach i atal pobl ifanc rhag bod yn NEET a/neu droseddu. Fel rhan o'r gwasanaeth integredig, mwy, weithiau mae gan y tîm cyfiawnder troseddol fwy o ddylanwad wrth weithio gyda phartneriaid eraill nag oedd ganddo fel gwasanaeth annibynnol.

7.4.4 Tîm allgymorth ieuenctid yn cefnogi ymyrryd ac ymgysylltu cynnar mewn lleoliadau addysg, hyfforddiant a chyflogaeth: Ieuenctid Sir Benfro

Pwy allai efelychu'r arferion hyn?

Gwasanaethau ieuenctid, gwasanaethau allgymorth a Thimau Troseddau Ieuenctid.

Beth yw manteision efelychu'r arferion hyn?

Defnyddio allgymorth mewn lleoliadau addysg, hyfforddiant a chyflogaeth:

Annog pobl ifanc sydd mewn perygl o ymddieithrio o addysg, hyfforddiant a chyflogaeth i gael eu hadnabod yn gynnar.

Darparu ffynhonnell ychwanegol o gymorth i'w helpu i fynd i'r afael ag anawsterau a pharhau i ymgysylltu. Gallai hyn gynnwys cynorthwyo pobl ifanc sy'n rhan o'r system cyfiawnder troseddol.

Trosolwg

Mae'r tîm allgymorth ieuenctid o Ieuenctid Sir Benfro yn gweithio gyda phobl ifanc yn eu darpariaeth addysg, hyfforddiant a chyflogaeth i'w cynorthwyo i barhau i ymgysylltu. Mae'r tîm yn cynnwys 6.5 swydd. Mae rhai gweithwyr allgymorth yn gweithio mewn lleoliadau penodol, fel ysgolion a'r coleg lleol. Fodd bynnag, mae rhai gweithwyr hefyd yn gallu cynnig cymorth fel y bo'r angen mewn lleoliadau addysg, hyfforddiant a chyflogaeth eraill, megis gyda darparwyr hyfforddiant. Mae llawer o'r rhain mewn sefyllfa i gynnig cymorth i bobl ifanc 16 i 18 oed. Mae'r tîm hefyd wedi datblygu swydd (0.5 cyfwerth ag amser llawn) i roi cymorth arbenigol i bobl ifanc sy'n rhan o'r system cyfiawnder troseddol.

Sut mae'r allgymorth o fudd i bobl ifanc sy'n rhan o'r system cyfiawnder troseddol sydd angen cymorth gydag addysg, hyfforddiant a chyflogaeth

- 1. Atgyfeirio pobl ifanc i'r gweithiwr allgymorth cyn gynted ag y mae'r risg o ymddieithrio'n cael ei nodi**
Caiff pobl ifanc eu hatgyfeirio i'r swyddog cymorth gan y darparwr addysg, hyfforddiant a chyflogaeth os yw eu presenoldeb yn gostwng, neu os ydynt yn wynebu anawsterau a allai effeithio ar eu presenoldeb a'u cyrhaeddiad (fel problemau tai neu ymddygiad).
- 2. Defnyddio gweithwyr allgymorth i ddarparu gwell addysg, hyfforddiant a chyflogaeth a chymorth**

cofleidiol

Mae'r gweithiwr allgymorth yn cynnig cymorth bugeiliol i'r person ifanc, yn cynnwys ei atgyfeirio i asiantaethau eraill i gael cymorth arbenigol yn ôl yr angen. Mae'r gweithiwr allgymorth yn aml yn gwneud gwaith llythrennedd ychwanegol gyda phobl ifanc sy'n cael anhawster yn y maes hwn. Caiff gweithwyr eu hyfforddi yn y rhaglen Rapid English, offeryn ar-lein y gellir ei ddefnyddio gyda'r person ifanc mewn unrhyw leoliad cyfleus. Caiff pobl ifanc eu hannog i gwblhau'r broses ochr yn ochr â'r gweithiwr er mwyn ennill sgiliau llythrennedd a chyfathrebu allweddol i'w galluogi i ymgysylltu'n fwy effeithiol â darpariaeth addysg, hyfforddiant a chyflogaeth. Mae manylion y rhaglen Rapid English ar gael yma: <http://www.rapidenglish.com/home.htm>.

Defnyddio gweithwyr allgymorth i gynorthwyo pobl ifanc i gefnogi ymgysylltiad cynnar a pharhaus mewn lleoliad addysg, hyfforddiant a chyflogaeth

Mae gweithiwr allgymorth y coleg, sy'n gweithio yng nghanolfan cymorth i fyfyrwyr y coleg, yn cynorthwyo pobl ifanc agored i niwed i ymgartrefu yn y coleg. Gallai'r rhain gynnwys pobl ifanc sy'n hysbys i'r tîm troseddau ieuencid a/neu pobl ifanc sydd wedi ei chael hi'n anodd ymgysylltu ag addysg, hyfforddiant a chyflogaeth yn y gorffennol, fel y rheini mewn uned cyfeirio disgyblion neu mewn perygl o roi'r gorau i'r ysgol. Mae'r gweithiwr yn ymgysylltu â pherson ifanc cyn iddo ddechrau'r coleg ac yn cynnig pont i amgylchedd y coleg. Mae'n rhoi hyfforddiant sgiliau bywyd i pobl ifanc hefyd. Yn ogystal, weithiau mae'n eirioli ar ran pobl ifanc yn eu perthynas â'r coleg, yn y cam derbyn ac unwaith y byddant yn mynychu'r coleg. Gallai hyn gynnwys cynorthwyo pobl ifanc i gyfathrebu â staff y coleg am eu problemau, neu annog y coleg i ymdrin â phroblemau presenoldeb neu ymddygiad yn ystyriol drwy sicrhau ei fod yn ymwybodol o unrhyw amgylchiadau lliniarol.

7.4.5 Defnyddio grŵp ymarferwyr NEET aml-asiantaeth i nodi a chefnogi pobl ifanc yn well: Ceredigion

Pwy allai efelychu'r arferion hyn?

Cydgysylltwyr Ymgysylltu a Datblygu awdurdodau lleol a chynrychiolwyr o bob asiantaeth sy'n ymwneud â chyflwyno darpariaeth addysg, hyfforddiant a chyflogaeth a chymorth i bobl ifanc sy'n rhan o'r system cyfiawnder troseddol, yn cynnwys gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid.

Beth yw manteision efelychu'r arferion hyn?

Mae cyfarfodydd ymarferwyr:

Yn gyfle i rannu gwybodaeth am bobl ifanc unigol, ond hefyd i rannu arbenigedd a gwybodaeth er mwyn datblygu'r cynllun aml-asiantaeth gorau i gynorthwyo pob person ifanc.

Yn fodd o olrhain cynnydd ac ymgysylltiad pobl ifanc, ac o ddyrannu camau gweithredu i asiantaethau penodol a'u dal i gyfrif am eu cyflawni.

Trosolwg

Mae ymarferwyr NEET aml-asiantaeth wedi bod yn cyfarfod yn rheolaidd yng Ngheredigion ers 2002 ar gyfer y grwpiau oed cyn 16 ac ôl-16. Mae yna banel rheoli NEET hefyd sy'n cynnwys staff rheoli gwasanaeth cyfiawnder ieuenctid Ceredigion, y Cydgysylltydd Ymgysylltu a Datblygu a chynrychiolwyr rheolwyr sefydliadol perthnasol eraill. Cyfarfod strategol yw hwn a'i nod yw arolygu a llywio gwaith ymarferwyr, er enghraifft, drwy ddatblygu protocol gweithiwr arweiniol. Mae rhanddeiliaid sy'n perthyn i'r panel hwn hefyd wedi gweithio ar ddatblygu cynllun lleol yn seiliedig ar amcanion y Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid, canfyddiadau Swyddfa Archwilio Cymru ac argymhellion a dderbyniwyd gan werthuswyr allanol.

Mae'r cyfarfodydd ôl-16 yn canolbwyntio ar bobl ifanc ar haen 1, 2 a 3¹¹. Cynghorydd Gyrfa Cymru yw'r gweithiwr arweiniol ar gyfer pobl ifanc haen 3, ac mae tîm allgymorth y gwasanaeth ieuenctid yn darparu gweithwyr arweiniol ar gyfer pobl ifanc haen 1 a 2. Mae'r gwaith a wneir ar bob achos yn cael ei olrhain yn drylwyr, caiff camau gweithredu eu pennu a chaiff cynnydd ei fesur. Caiff y gwaith hwn ei ychwanegu at gronfa ddata Gyrfa Cymru, gan fod y cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn swyddfa Gyrfa Cymru.

Mae gan Geredigion brotocol rhannu gwybodaeth WASPI ar gyfer Gwasanaethau Aml-asiantaeth NEET, i gefnogi Grŵp Ymarferwyr NEET Ceredigion drwy rannu gwybodaeth bersonol pobl ifanc yn rheolaidd. Mae'r protocol a'r atodiad cysylltiedig yn rhoi manylion dibenion rhannu gwybodaeth a'r gweithdrefnau gweithredi a phrosesau caniatâd gofynnol. Nod y protocol yw sicrhau bod pobl ifanc yn gallu symud rhwng gwasanaethau'n hwylus a bod pob sefydliad yn gweithio tuag at yr un canlyniadau.

Mae gan Geredigion Lawlyfr Ymarferwyr Gwasanaeth NEET Aml-asiantaeth hefyd. Mae'r ddogfen hon yn amlinellu strwythur y grŵp ymarferwyr, ei gyfarfodydd, ei brosesau, a'i weithdrefnau monitro ac adrodd. Caiff hyn ei gyflenwi gan ystod o gymorth addysg, hyfforddiant a chyflogaeth lleol ar gyfer pobl ifanc 16-18 oed.

¹¹ The tiers are drawn from the YEPF five-tier model of engagement (post-16). Tier 1 is young people unknown to Careers Wales; tier 2 is unemployed 16 and 17 year olds, known to Careers Wales, who are not available for ETE; tier 3 is unemployed 16 and 17 year olds known to Careers Wales.

Dogfennau Ategol	
Protocol Rhannu Gwybodaeth WASPI Ceredigion ar gyfer Gwasanaeth Aml-asiantaeth NEET	http://www.waspi.org/docopen.cfm?orgid=702&id=208998
Protocol Rhannu Gwybodaeth WASPI Ceredigion_atodiad ategol	http://www.waspi.org/docopen.cfm?orgid=702&id=209001
Llawlyfr Ymarferwyr Gwasanaeth NEET Aml-asiantaeth Ceredigion	Atodiad 6
Rhestr o ddarpariaeth addysg, hyfforddiant a chyflogaeth leol i gynorthwyo pobl ifanc 16-18 oed ar gyfer gweithwyr arweiniol gwasanaeth NEET aml-asiantaeth Ceredigion	http://fis.ceredigion.gov.uk/wp-content/uploads/2015/05/Lead-Worker-Local-Provision-Handbook-2.pdf